Subordinate legislation will set out publicity requirements. In the instances of a linear route, such as a railway or a new road, this may include multiple notices. However, where additional publicity occurs for a relatively minor amendment to the scheme, the Welsh Ministers may see no reason to publicise this amendment in the same way.

Example 2: Engagement

Subordinate legislation will set requirements that an applicant will have to fulfil during the pre-application consultation. If the regulation requires public events to consult on a proposed development, there might be instances where this will not be physically possible, for example during a pandemic.

Example 3: Consultation

Subordinate legislation will set consultation requirements associated with the correction of errors in a decision. Depending on the nature of the correction, it may be appropriate to dispense with some of the consultation requirements.

In such instances, it would be helpful and proportionate for the Welsh Ministers to exercise a power which enables them to dispense with a procedural requirement or requirements set out in the Bill or regulations. In the interests of transparency, where requirements are dispensed with, it would be important for the reasons for those requirements to be dispensed with to be published.

	<p><u>Regulations to limit this power</u></p> <p>Due to the nature of this power, it is intended to limit its scope through subordinate legislation which must specify the requirements that may be disapplied by direction.</p> <p>At this time it is proposed to limit this power to pre-application procedures (sections 29 and 30) and to some application procedures (sections 31, 32, 33 and 35) as well as the procedure for correcting errors in a consent (sections 84 and 85) or changing or revoking an infrastructure consent (section 137).</p> <p>Under no circumstances is it intended the subordinate legislation will enable a direction to be issued to disapply requirements which protect rights or ensure no offences are committed, such as procedures relating to compulsory purchase.</p> <p>Regulations will also place a duty on the Welsh Ministers to publish any direction which dispenses with a requirement and to specify the reason behind the dispensation.</p> <p>The subordinate legislation will require scrutiny through the affirmative procedure.</p>
<p>Section 129</p> <p>Make regulations about Crown Applications</p>	<p>Background</p> <p>When making an application for an IC, there are certain circumstances which may require the application to be considered in a different way or for procedural aspects to be dispensed with. This may be in the case of Crown Development, and where such development may contain sensitive information where disclosure may not be in the public interest.</p> <p>Furthermore, in cases where national security directions apply the Crown may choose not to disclose some of the details of a proposed development on the grounds that national security (or the security of premises or other property) might otherwise be compromised.</p>

	<p>Subordinate legislation</p> <p>The Bill enables the Welsh Ministers to modify or exclude any statutory provision relating to pre-application procedure, the making of an application, examination and decision-making relating to an IC, where the application is made by or on behalf of the Crown.</p> <p>For example, regulations may detail how examinations may be conducted where the Crown is withholding sensitive information or matters pertaining to national security may not be disclosed to the public. Additionally, special procedures may be set in subordinate legislation to allow for some Crown developments to be determined as a matter of urgency.</p>
--	--

PART 9 – GENERAL PROVISIONS

Power(s): Part 9, sections 133 and 141

Description:

These powers enable the Welsh Ministers to:

- specify any other way to give notices and other documents to a person, and
- make supplementary, incidental, transitional or consequential provisions.

Policy intention:

Specify any other way to give notices

The Bill is designed to encourage electronic working as the basis for the infrastructure consenting process enabling any notice, correspondence or document required to be submitted or issued electronically and to give electronic communications the same status as paper communications. While this is the case, there will remain the option of giving any document in paper format to enable participation from parties whose preference is not to use electronic communications.

Make supplementary, incidental, transitional or consequential provisions

This section sets out a regulation making power which may be used by the Welsh Ministers to make supplementary, incidental, transitional or consequential provisions. These regulations may amend, modify, repeal or revoke any enactment (including an enactment contained in this Bill).

Topic Area	Description
<p>Sections 133</p> <p>Specify any other way to give notices and other documents to a person</p>	<p>Background</p> <p>The majority of applications for major infrastructure are submitted electronically. This is largely due to the number of plans and supporting documents which accompanies such projects. There are also benefits to electronic submission in that information can easily be transferred online and any notification which requires a copy of the application to be sent to a consultee can be undertaken electronically.</p> <p>In respect of any notice, statement, other document or copies of other documents referred to in the Bill which are required to be served, given, or supplied, they may be served, given or supplied by:</p> <ul style="list-style-type: none"> • delivering it to the person on whom it is to be given; • leaving it at the usual or last known place of abode of that person; • sending it by post in a prepaid registered letter; • sending it by electronic communications. <p>Subordinate legislation</p> <p>Regulations will specify any other way to give notices and documents.</p> <p>The list included in section 133 is exhaustive but communication methods evolve very quickly and there might be a new way of communicating in future which may be added to the list included in section 133. This regulation making power allows the Welsh Ministers to add ways of giving notices to the list.</p>

Section 141	<p>Background</p> <p>This section sets out a regulation making power which may be used by the Welsh Ministers to make supplementary, incidental, and consequential provision and transitional or saving provisions. These regulations may amend, modify, repeal or revoke any enactment (including an enactment contained in this Bill).</p> <p>Subordinate legislation</p> <p>To ensure smooth transition between the old processes and the new regime, transitional arrangements are likely to be needed. It is not possible to say at this point what legislation may need to be adjusted, but an example of a transitional provision generally is the ‘saving’ of existing legislation so that it continues to apply where a project is being considered under an old regime.</p>
-------------	---

SCHEDULE 2 – COMPENSATION FOR CHANGING OR REVOKING INFRASTRUCTURE CONSENT ORDERS

Power(s): Paragraphs 1(3) and 2(1)

Description:

These powers enable the Welsh Ministers to:

- make provisions about the way in which a claim for compensation for changing or revoking Infrastructure Consent Orders (“ICO”) is made.
- make provisions about the minimum amount of compensation for depreciation in relation to an application for changing or revoking ICOs.

Policy intention:

Where an infrastructure consent order is changed or revoked by the Welsh Ministers without an application being made, the Bill provides the ability for those who have an interest in the land to claim compensation for any financial losses occurred as a result of the change or revocation. These paragraphs make provisions for Welsh Ministers to set out the details of the procedure for making a claim for compensation and setting the minimum amount of compensation for depreciation.

Topic Area	Description
Paragraph 1(3) Changing or revoking an infrastructure consent order: compensation procedure	Background Where an ICO has been granted, powers in section 87 of the Bill enable the Welsh Ministers to change or revoke an ICO, either upon application or unilaterally. Where the Welsh Ministers make a change to an ICO unilaterally which would have a material impact on the consent given, or revoke an ICO, there may be financial implications on those

who have an interest in the land to which the consent relates. For example, the modification or revocation of an ICO could possibly cause partial or complete loss in income for those with an interest in the land to which it relates. In such circumstances, there would be a reasonable expectation for them to be compensated for their loss. Accordingly, provision is made to enable those with an interest in the land to put forward a claim for compensation to the Welsh Ministers.

As the Welsh Ministers are the determining authority for an ICO and will also have the power to amend or revoke an ICO, it is considered appropriate for any claim relating to compensation to be made to Welsh Ministers. Furthermore, as the determining authority, it is also considered appropriate that any successful claim for compensation is paid by the Welsh Ministers, given it will ultimately be their decision on whether to amend or revoke an ICO.

Subordinate legislation

The Bill makes provision for the way in which, and the period within which, a claim for compensation under this paragraph must be made. It is anticipated subordinate legislation will include:

- what a claim for compensation should contain, including (but not limited to):
 - details of the applicant/agent (inc name and address);
 - a statement as to whether the claimant has an interest in the land to which the relevant order relates or is a person for whose benefit the development consent order has effect;
 - the original ICO reference for the relevant order;
 - details of the expenditure, loss or damage which is the subject of the claim;
 - documents and evidence to support the claim and any other supporting documents;
- set a timeframe of 6 months in which to submit a claim for compensation.

<p>Paragraph 2(1)</p> <p>Compensation for depreciation: minimum amount</p>	<p>Background</p> <p>There may be instances where the land associated with an ICO can cover large areas and potentially cross over multiple local authority boundaries. As a result, different areas of the land may be affected more than others for the purposes of an ICO in terms of land depreciation and the amount of compensation payable. This will depend on how each of those parts is affected by the amendment to, or revocation of, the ICO.</p> <p>Paragraph 2(1) enables regulations to set a value at which point the compensation in relation to depreciation of land value is apportioned.</p> <p>Subordinate legislation</p> <p>We are aware the Town and Country Planning system has set compensation for depreciation in land value may be apportioned where the level of compensation exceeds £20. We will consider if this level should apply to this regime.</p>
--	---

Julie James AS/MS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA/JJ/2233/23

Llyr Gruffydd AS
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

5 Medi 2023

Annwyl Llŷr,

Diolch am anfon Adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith a gyhoeddwyd ar 14 Gorffennaf 2023 mewn perthynas â Bil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) ("y Bil").

Mae fy ymateb i'r argymhellion yn yr adroddiad yn Atodiad 1 isod. Rwyf hefyd wedi ysgrifennu heddiw at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a Chadeirydd y Pwyllgor Cyllid i amlinellu fy ymateb i'w hargymhellion nhw.

Nodwch yn yr achos hwn fy mod wedi llwyddo i roi ymateb i'r rhan fwyaf o'r argymhellion yn yr adroddiad cyn y Drafodaeth am Egwyddorion Cyffredinol. Fodd bynnag, fel arfer mae Gweinidogion yn rhoi esboniad o ymateb y Llywodraeth i'r argymhellion ym mhob adroddiad gan y Pwyllgor, gan gynnwys yn ystod y drafodaeth Cyfnod 1, ac yn y rhan fwyaf o achosion, ond nid bob tro, maent yn rhoi rhagor o fanylion drwy lythyr ffurfiol. Nid yw'r ymateb yn arwydd y byddwn yn peidio â gwneud hynny yn y dyfodol.

Rwy'n edrych ymlaen at barhau i weithio gydag Aelodau wrth i'r Bil fynd ar ei daith drwy broses y Senedd.

Yn gywir

Julie James AS/MS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Tudalen y pecyn 167

Atodiad 1

Ymateb i'r Argymhellion yn Adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith a gyhoeddwyd ar 14 Gorffennaf 2023 mewn perthynas â Bil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) ("y Bil").

Argymhelliad 1.

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Senedd yn cefnogi egwyddorion cyffredinol y Bil

Rwy'n cefnogi'r argymhelliad hwn.

Argymhelliad 2.

Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i gynnwys mesurau sydd â'r nod o leihau llygredd aer o allyriadau amaethyddol a gwella ansawdd aer.

Rwy'n cytuno â'r Pwyllgor y dylai Gweinidogion Cymru ddarparu gwybodaeth am y camau sydd eu hangen i leihau llygredd o allyriadau amaethyddol a gwella ansawdd aer. Fodd bynnag, er fy mod yn cytuno ag ysbryd yr argymhelliad hwn, nid wyf yn credu bod angen gwelliant i'r Bil, am y bydd y Strategaeth Ansawdd Aer Genedlaethol yn amlinellu'r bolisiau a'r mesurau trawslywodraethol a thraws-sector ar gyfer gyflawni ein hamcanion ar gyfer aer glanach yng Nghymru. Bydd hyn yn cynnwys camau i sicrhau bod unrhyw dargedau newydd ar gyfer ansawdd aer yn cael eu cyflawni.

Ochr yn ochr â hyn, rydym eisoes yn cynnal amrediad eang o waith i leihau llygredd amaethyddol a'i effaith ar ein hamgylchedd. Mae rhagor o fanylion ynglŷn â'r camau rydym yn eu cymryd ar gael yn Atodiad 2.

Argymhelliad 3.

Dylai'r Gweinidog ddefnyddio'r Bil i annog teithio llesol. Ar y lleiaf, rydym yn disgwyl i'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i sicrhau bod y Bil yn darparu ar gyfer hyrwyddo teithio llesol fel ffordd o leihau llygredd aer o allyriadau cerbydau a gwella ansawdd aer.

Mae'r "Ddyletswydd i Hyrwyddo Ymwybyddiaeth o Lygredd Aer" yn Adran 8 yn ddyletswydd eang sy'n ein galluogi i gymryd camau wedi'u targedu mewn perthynas ag amrediad o lygryddion a ffynonellau, gan gynnwys teithio llesol. Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt ynghylch opsiynau posibl ar gyfer rhoi grym i'r argymhelliad hwn, mewn ffordd sy'n gweithio o fewn bwriad polisi a chwmpas y Bil.

Argymhelliad 4.

Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i fynd i'r afael â'r ffaith bod y cyfeiriadau at 'Ysgrifennydd Gwladol' yn adran 80 o Ddeddf 1995 wedi arwain at ddryswch i ddefnyddwyr terfynol y ddeddfwriaeth oherwydd, mewn perthynas â Chymru, dyletswydd Gweinidogion Cymru yw paratoi a chyhoeddi strategaeth ansawdd aer genedlaethol, ac adolygu'r strategaeth honno.

Er fy mod yn cytuno bod angen eglurder ynghylch y pwynt hwn, mae llawer o gyfeiriadau at yr "Ysgrifennydd Gwladol" yn y llyfr statud mewn perthynas â deddfwriaeth hyn y mae angen eu darllen ar y cyd â'r Gorchmynion Trosglwyddo Swyddogaethau perthnasol a'r darpariaethau perthnasol yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006. Byddai newid y cyfeiriadau at yr Ysgrifennydd Gwladol yn adran 80 yn peri anghysondeb a dryswch. Fodd bynnag, gallaf ymrwymo i egluro'r pwynt hwn yn y Memorandwm Esboniadol a/neu'r Nodiadau Esboniadol.

Argymhelliad 5.

Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i osod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n pennu targedau ansawdd aer ar gyfer yr holl lygryddion a gwmpesir gan Ganllawiau Ansawdd Aer Sefydliad Iechyd y Byd, ac ar gyfer amonia. Dylai hyn ategu, yn hytrach na disodli, y pŵer dewisol i osod targedau ar gyfer unrhyw fater yn ymwneud ag ansawdd aer yng Nghymru. Rhaid gwneud rheoliadau heb fod yn hwyrach na thair blynedd ar ôl y diwrnod y bydd y Ddeddf yn cael Cydsyniad Brenhinol. Os yw'r Gweinidog o blaid derbyn yr argymhelliad hwn, byddem yn fodlon i Weinidogion Cymru gael pŵer i wneud rheoliadau i ddiwygio'r rhestr o lygryddion a nodir ar wyneb y Bil.

Nid wyf yn gallu ymateb i'r argymhelliad hwn ar hyn o bryd am fod hwn yn newid sylweddol o'r dyletswyddau mewn perthynas â thargedau ansawdd aer yn y Bil, gydag effeithiau trawslywodraethol a thraws-sector helaeth. Yn ogystal, mae angen asesu ffactorau sy'n cynnwys effeithiau ariannol, amgylcheddol, economaidd ac economaidd-gymdeithasol posibl, ac effeithiau posibl ar iechyd. Gallaf roi sicrwydd ichi ein bod wrthi'n ystyried yr argymhelliad yn llawn. Byddaf yn ysgrifennu atoch ar wahân mewn perthynas â'r mater hwn maes o law.

Argymhelliad 6.

Os nad yw'r Gweinidog yn fodlon derbyn Argymhelliad 5, dylai:

- **gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i osod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau i osod targedau ansawdd aer ar gyfer nitrogen deuocsid ac amonia. Rhaid gwneud rheoliadau heb fod yn hwyrach na thair blynedd ar ôl y diwrnod mae'r Ddeddf yn cael Cydsyniad Brenhinol;**

Nid wyf yn gallu ymateb i'r argymhelliad hwn ar hyn o bryd am fod hwn yn newid sylweddol o'r dyletswyddau mewn perthynas â thargedau ansawdd aer yn y Bil, gydag effeithiau trawslywodraethol a thraws-sector helaeth. Yn ogystal, mae angen asesu ffactorau sy'n cynnwys effeithiau ariannol, amgylcheddol, economaidd ac economaidd-gymdeithasol posibl, ac effeithiau posibl ar iechyd. Gallaf roi sicrwydd ichi ein bod wrthi'n ystyried yr argymhelliad yn llawn. Byddaf yn ysgrifennu atoch ar wahân mewn perthynas â'r mater hwn maes o law.

- **ac ymrwymo i fynd i'r afael ag unrhyw fwlch data/tystiolaeth a allai fod yn rhwystr i osod targedau ar gyfer yr holl lygryddion sy'n weddill a gwmpesir gan Ganllawiau Ansawdd Aer Sefydliad Iechyd y Byd. Dylai hefyd ymrwymo i adrodd yn ôl i'r Senedd ar gynnydd tuag at ddatblygu targedau bob blwyddyn ar ôl i'r Ddeddf gael Cydsyniad Brenhinol.**

Rwy'n derbyn y rhan hon o'r argymhelliad. Fel yr wyf wedi dweud wrth y Pwyllgor, rydym eisoes wedi rhoi prosiect tystiolaeth helaeth ar waith i ystyried yr achos dros osod targedau y cyfeiriwyd atynt yng nghanllawiau Sefydliad Iechyd y Byd ar ansawdd aer. Mae'r argymhelliad hwn yn tynnu sylw at yr angen am ddull o ddatblygu targedau newydd sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

Argymhelliad 7.

Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i ddarparu bod yn rhaid i reoliadau gosod targed $PM_{2.5}$ gael eu gwneud heb fod yn hwyrach na dwy flynedd ar ôl y diwrnod y caiff y Ddeddf Gydsyniad Brenhinol.

Rwy'n gwrthod yr argymhelliad hwn am nad yw'n bosibl gosod rheoliadau o fewn dwy flynedd i dderbyn Cydsyniad Brenhinol. Gwnaeth fy swyddogion roi briff llafar a darparu briff technegol ysgrifenedig i'r pwyllgor ym mis Mehefin, sy'n egluro pam mae angen amserlen tair blynedd. Bydd y prosiect yn cael effeithiau trawslywodraethol a thraws-sector helaeth. Yn ogystal, mae angen asesu ffactorau sy'n cynnwys effeithiau ariannol, amgylcheddol, economaidd ac economaidd-gymdeithasol posibl, ac effeithiau posibl ar iechyd. Hefyd mae angen inni sicrhau ein bod yn gadael digon o amser ar gyfer ymgysylltu, ymgynghori a chraffu gan y Senedd, a drafftio'r rheoliadau.

Argymhelliad 8.

Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i ddarparu y gall targedau ansawdd aer a osodir o dan y Bil fod yn dargedau hirdymor, ond nad oes angen iddynt fod. Diben hyn yw galluogi Gweinidogion Cymru i osod targedau interim ar lwybr tuag at darged hirdymor, a gosod targedau tymor byr ar gyfer llygryddion newydd.

Rwy'n cytuno ei bod yn bwysig i Weinidogion Cymru fod â phwerau i osod targedau dros dro, ac mae eisoes gennym bwerau i wneud hyn, yn yr un modd ag ar gyfer unrhyw darged ansawdd aer tymor byr. Felly, nid oes angen newid y Bil er mwyn darparu ar gyfer hyn. Gall y targedau dros dro hyn fod yn statudol neu anstatudol, i ddangos cynnydd tuag at gydymffurfio â thargedau tymor hwy.

Yn ogystal, wrth osod ac adolygu targedau o dan y fframwaith, mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru geisio cyngor gan yr arbenigwyr perthnasol ac i ystyried gwybodaeth wyddonol. Mae amrediad o wahanol fathau o darged ansawdd aer ar hyn o bryd, sy'n dibynnu ar natur y llygrydd. Byddai disgwyl i'r angen am unrhyw darged dros dro, y math o darged ddylai fe fod a phryd y byddai'n berthnasol, fod yn rhan o'r cyngor cychwynnol a pharhaus hwn.

Argymhelliad 9.

Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i ddarparu bod yn rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw i Ganllawiau Ansawdd Aer diweddaraf Sefydliad Iechyd y Byd wrth osod targedau ansawdd aer.

Bydd canllawiau Sefydliad Iechyd y Byd ar ansawdd aer yn cael eu hystyried fel rhan o ddyletswydd Gweinidogion Cymru o dan y Bil i roi sylw i wybodaeth wyddonol wrth osod targedau. O bryd i'w gilydd mae Sefydliad Iechyd y Byd, fel rhan o'i gylch gwaith, yn cyhoeddi argymhellion sy'n gysylltiedig ag iechyd i helpu llywodraethau a chymdeithas sifil i leihau cysylltiad pobl â llygredd aer a'i effeithiau niweidiol. Nid yw'r canllawiau hyn ar ansawdd aer yn rhwymo mewn cyfraith; fodd bynnag, maent yn darparu offeryn inni a gwledydd eraill sy'n seiliedig ar wybodaeth y gallant ei defnyddio i lywio deddfwriaeth a polisi. Y bwriad yw y dylai llywodraethau ystyried eu hamgylchiadau lleol unigryw wrth ddefnyddio'r canllawiau, yn ogystal ag ymarferoldeb cyflawni'r targedau, a'r costau nad ydynt yn gysylltiedig ag iechyd. Bydd y Pwyllgor yn ymwybodol o'r dyletswyddau y mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru i gydymffurfio â nhw wrth ddatblygu canllawiau. Er enghraifft ein dyletswyddau ynghylch llesiant cenedlaethau'r dyfodol. Mae'r gofyniad i "roi sylw" i wybodaeth wyddonol am lygredd aer wrth wneud rheoliadau ar gyfer targedau yn golygu y bydd canllawiau Sefydliad Iechyd y Byd yn cael eu defnyddio yn union yn y ffordd y mae'r sefydliad hwnnw'n bwriadu iddynt gael eu defnyddio.

Mae dogfennau ategol y Bil, gan gynnwys y Nodiadau Esboniadol, yn ei gwneud yn glir y bydd canllawiau Sefydliad Iechyd y Byd yn cael eu hystyried pan fydd y targedau'n cael eu datblygu. Am y rhesymau hyn nid wyf yn credu bod angen gwelliant.

Argymhelliad 10.

Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i gynnwys gofyniad ar Weinidogion Cymru i ymgynghori â rhanddeiliaid perthnasol cyn gwneud rheoliadau i osod targedau ansawdd aer. Dylai ymgynghoreion statudol gynnwys (ymysg eraill) y rhai a restrir yn adran 87(7B) newydd Deddf yr Amgylchedd 1995 (i'w mewnosod gan adran 12 o'r Bil).

Er fy mod yn cefnogi ysbryd yr argymhelliad hwn, nid wyf yn credu bod angen gwelliant. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi ymrwmo i ymgynghori cyn gwneud rheoliadau o'r fath, ac rwy'n ailadrodd yr ymrwymiad hwnnw yma. Bydd ymgynghoriad cyhoeddus llawn cyn gwneud rheoliadau sy'n gosod targedau tymor hir. Mae'r rheoliadau hyn hefyd yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol, felly mae angen cymeradwyaeth y Senedd cyn iddynt gael eu gwneud.

Argymhelliad 11.

Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i sicrhau bod y Bil yn darparu ar gyfer adrodd yn rheolaidd i'r Senedd ar gynnydd tuag at gyflawni targedau ansawdd aer. Gellid cyflawni hyn drwy gynnwys dyletswydd ar Weinidogion Cymru i adrodd yn flynyddol i'r Senedd ar gynnydd. Dylai hyn ategu yn hytrach na disodli'r darpariaethau adrodd ac adolygu a nodir yn adrannau 5 a 6

Gofynnir i'r Pwyllgor nodi, yn ogystal â'r gofynion yn adrannau 5 a 6 o'r Bil, fod adran 7 yn rhoi dyletswydd benodol ar Weinidogion Cymru i wneud trefniadau i gasglu data am ansawdd aer yng Nghymru, i'w galluogi i fonitro'r cynnydd tuag at gyflawni'r targedau a osodir, a sicrhau bod y data'n cael ei gyhoeddi. Mae hyn yn enghraifft arall o'r ffordd y byddwn yn dryloyw wrth ddangos cynnydd tuag at fodloni targedau newydd a osodir o dan y Bil.

Hefyd, mae'r Strategaeth Ansawdd Aer Genedlaethol eisoes yn amlinellu'r polisiau a'r mesurau er mwyn cyflawni ein hamcanion tymor hir ar gyfer aer glân.

Wrth ddweud hyn, rwy'n cydnabod dymuniad y Pwyllgor i weld adrodd rheolaidd. Os yw'r targed wedi cael ei gyflawni, rwyf hefyd yn cydnabod bod y Bil yn dawel o ran unrhyw ofynion adrodd pellach. O ran polisi, nid wyf yn credu y byddai'n briodol i'r broses o adrodd am gydymffurfedd a darparu data ddod i ben pan fydd targed wedi cael ei gyflawni. Felly, rwy'n cynnig gwneud gwelliant a fydd yn sicrhau bod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gynnal unrhyw safon a gyflawnir yn rhinwedd unrhyw darged a osodir o dan y Bil. Yn ogystal, rwy'n cynnig bod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i sicrhau bod gofynion adrodd ar waith mewn perthynas â'u dyletswydd i gynnal safonau. Rwyf hefyd wedi ymrwymo i gyflwyno adroddiad blynyddol ar y Strategaeth Ansawdd Aer Genedlaethol.

Rwy'n credu bod y cyfuniad o'r dyletswyddau hyn yn rhoi'r cydbwysedd cywir ar gyfer adrodd cyn, yn ystod ac ar ôl y dyddiad olaf ar gyfer cyflawni'r targedau.

Argymhelliad 12.

Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i sicrhau bod yn rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw i Ganllawiau Ansawdd Aer diweddaraf Sefydliad lechyd y Byd wrth adolygu targedau yn unol ag adran 6.

Fel y nodwyd yn fy ymateb i Argymhelliad 9, bydd canllawiau Sefydliad lechyd y Byd ar ansawdd aer yn cael eu hystyried fel rhan o ddyletswydd Gweinidogion Cymru i roi sylw i wybodaeth wyddonol wrth osod targedau. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi nad yw canllawiau'r Sefydliad hwinnw ar ansawdd aer yn safonau nac yn feini prawf sy'n rhwymo mewn cyfraith. Dylai llywodraethau ystyried eu hamgylchiadau lleol unigryw pan fyddant yn defnyddio'r canllawiau.

Mae'r Bil fel y'i drafftwyd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru roi sylw i wybodaeth wyddonol, a byddai hon yn cynnwys canllawiau Sefydliad lechyd y Byd ar ansawdd aer. Mae dogfennau ategol y Bil, gan gynnwys y Nodiadau Esboniadol, yn ei gwneud yn glir y bydd canllawiau Sefydliad lechyd y Byd ar ansawdd aer yn cael eu hystyried pan fydd targedau'n cael eu datblygu. Felly, nid wyf yn credu bod angen y gwelliant a argymhellwyd.

Argymhelliad 13.

Dylai'r Gweinidog:

- egluro'r amserlen y mae'n gweithio tuag ati ar gyfer estyn a gwella galluoedd monitro ansawdd aer presennol;
- darparu rhagor o fanylion am sut caiff y broses casglu data ei gwella at ddiben pennu a monitro cynnydd tuag at dargedau ansawdd aer;
a
- rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd tuag at ddatblygu gwasanaeth monitro ac asesu llygredd aer cenedlaethol i Gymru, gan gynnwys amserlen ddiwygiedig ar gyfer gweithredu'r gwasanaeth.

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn. Mae'r fframwaith Targedau Cenedlaethol yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru roi trefniadau ar gyfer casglu data ar waith er mwyn asesu'r cynnydd tuag at dargedau ar ôl iddynt gael eu gosod, ac i sicrhau bod data'n cael ei gyhoeddi. Mae gan y Cynllun Aer Glân i Gymru gysylltiadau agos â'r ddyletsydd i gasglu a chyhoeddi data, ac mae'n cynnwys ymrwymiad i ddatblygu a rhoi ar waith Gwasanaeth Monitro ac Asesu Ansawdd Aer ar gyfer Cymru.

Mae tudalennau 84–91 o'r Memorandwm Esboniadol a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn disgrifio'r costau disgwylidig a'r amserlenni mewn perthynas â'r galluoedd monitro, modelu ac adrodd sydd eu hangen i fesur, asesu ac adrodd ar gydymffurfedd â thargedau penodol. Bydd penderfyniadau ynghylch technolegau monitro a'u lleoliad yn seiliedig ar dystiolaeth, ac yn cael eu harwain gan gyngor arbenigwyr i sicrhau bod y data yn dangos y ffordd orau bosibl o gyflawni'r targedau a osodir. Pan fydd modd, hoffem i'r rhwydweithiau estynedig arwain cyfundrefnau lleol a chenedlaethol presennol wrth gefnogi camau cydlynol a gymerir oherwydd y mesurau.

Mae'r Gwasanaeth yn cael ei ystyried a'i ddatblygu ochr yn ochr â'r gofynion ar gyfer monitro ansawdd aer. Rydym yn gweithio'n agos â Cyfoeth Naturiol Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, awdurdodau lleol, y Panel Cyngori ar Aer Glân a phartneriaid eraill wrth ystyried a datblygu'r Gwasanaeth a monitro aer gwell yng Nghymru.

Argymhelliad 14.

Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i roi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyflwyno adroddiad blynyddol i'r Senedd ar y camau a gymerwyd i hybu ymwybyddiaeth o lygredd aer a chynnydd tuag at gamau gweithredu a nodir yn y cynllun cyflawni. Byddem yn fodlon i'r adroddiad hwn fod yn rhan o'r adroddiad blynyddol ehangach ar gynnydd tuag at gyflawni'r Strategaeth Ansawdd Aer Genedlaethol (gweler Argymhelliad 15).

Rydym eisoes wedi ymrwymo i lunio adroddiad blynyddol ar y Strategaeth Ansawdd Aer Genedlaethol, ac rydym yn disgwyl i'r cynllun cyflawni fod yn rhan o'r gwaith hwn. Fodd bynnag, oherwydd amseriad yr adroddiad hwn, bydd angen adrodd ar y cynllun cyflawni ar wahân y tro cyntaf i fodloni'r gofyniad i adrodd yn flynyddol. Rwy'n fodlon ymrwymo i wneud hyn yn y Memorandwm Esboniadol, ond nid wyf yn cytuno bod angen gwelliant i'r Bil at y diben hwn.

Argymhelliad 15.

Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i gynnwys dyletswydd ar Weinidogion Cymru i adrodd yn flynyddol i'r Senedd ar gynnydd tuag at gyflawni'r Strategaeth Ansawdd Aer Genedlaethol.

Rwy'n gwerthfawrogi ac yn cytuno â lefel y pwysigrwydd mae'r Pwyllgor yn ei rhoi ar adrodd a thryloywder. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi ymrwmo i gyflwyno adroddiadau blynyddol ar y Strategaeth Ansawdd Aer Genedlaethol: Rwy'n hapus i ailadrodd yr ymrwymiad hwnnw ym Memorandwm Esboniadol y Bil.

Argymhelliad 16.

Dylai'r Gweinidog roi rhagor o fanylion am sut bydd Llywodraeth Cymru yn monitro ac yn adrodd ar gydymffurfedd â'r ddyletswydd ar awdurdodau lleol ac awdurdodau cyhoeddus perthnasol yng Nghymru i roi sylw i'r Strategaeth Ansawdd Aer Genedlaethol

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn. Byddwn yn monitro ac yn adrodd ar gydymffurfedd â'r ddyletswydd sydd ar awdurdodau lleol ac awdurdodau cyhoeddus perthnasol Cymru i roi sylw i'r Strategaeth Ansawdd Aer Genedlaethol drwy fecanweithiau presennol. Byddwn yn gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol wrth ddatblygu'r Strategaeth Ansawdd Aer Genedlaethol a'r polisiau ynddi. Mae'r gyfundrefn Rheoli Ansawdd Aer yn Lleol yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gyflwyno adroddiadau cynnydd blynyddol. Bydd Llywodraeth Cymru yn adrodd ar y Strategaeth Ansawdd Aer Genedlaethol bob blwyddyn, ac rydym hefyd yn cyhoeddi Adroddiad Ansawdd Aer Cymru.

Argymhelliad 17.

Dylai'r Gweinidog ymrwmo i sicrhau bod unrhyw gost ychwanegol i awdurdodau lleol ac awdurdodau cyhoeddus perthnasol yng Nghymru sy'n deillio o'r ddyletswydd i roi sylw i'r Strategaeth Ansawdd Aer Genedlaethol yn cael ei diwallu drwy lefel briodol o gyllid.

Rydym wedi gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol wrth inni ddatblygu ein Cynllun Aer Glân i Gymru a'r Bil hwn, a byddwn yn parhau â'r gwaith agos hwn pan fyddwn yn datblygu'r Strategaeth Ansawdd Aer Genedlaethol. Mae hyn yn cynnwys opsiynau ar gyfer darparu cyllid priodol.

Argymhelliad 18.

Dylai'r Gweinidog ystyried cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i sicrhau bod sefydliadau eraill y GIG, Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn cael eu rhestru fel ymgynghoreion statudol wrth adolygu'r Strategaeth Ansawdd Aer Genedlaethol.

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn a byddwn yn cyflwyno gwelliant i adlewyrchu'r argymhelliad hwn.

Argymhelliad 19.

Dylai'r Gweinidog ymrwymo i barhau i adolygu'r dyraniad cyllidebol ar gyfer y Gronfa Gymorth Rheoli Ansawdd Aer Lleol sydd newydd ei sefydlu.

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn a byddaf yn ymrwymo i barhau i adolygu'r dyraniad cyllidebol ar gyfer y Gronfa Gymorth Rheoli Ansawdd Aer Lleol sydd newydd ei sefydlu.

Argymhelliad 20.

Dylai'r Gweinidog ddiwygio'r Bil:

- **i osod dyletswydd ar awdurdodau lleol i baratoi a chyhoeddi strategaeth ansawdd aer yn nodi'r camau y byddant yn eu cymryd i wella ansawdd aer ar draws eu hardal; ac**
- **i alluogi dau neu ragor o awdurdodau cyfagos i baratoi strategaeth ar y cyd i gwrdd â'r ddyletswydd a amlinellir uchod.**

Mae ein canllawiau statudol eisoes yn amlinellu opsiwn i awdurdodau lleol unigol neu grwpiau o awdurdodau lleol ddatblygu strategaethau ansawdd aer. Pe baem yn gwneud hon yn ddyletswydd statudol byddem yn ychwanegu ymhellach at y baich sydd ar adnoddau awdurdodau lleol.

Yn lle hynny rwy'n ymrwymo i ddiweddarau'r canllawiau statudol a gwella'r broses ar gyfer adroddiadau blynyddol, i ysgogi gweithredu ac annog cydgysylltu ar draws strategaethau awdurdodau lleol perthnasol. Mae Cyd-bwyllgorau Corfforedig hefyd yn darparu mecanwaith i sicrhau bod ansawdd aer yn cael ei ystyried mewn perthynas â thrafnidiaeth a chynllunio defnydd tir ar lefel ranbarthol.

Argymhelliad 21.

Os nad yw'r Gweinidog yn fodlon derbyn Argymhelliad 20, dylai ymrwymo i gryfhau canllawiau Llywodraeth Cymru ar reoli ansawdd aer lleol i osod disgwyliad cryf i awdurdodau lleol ddatblygu strategaethau ansawdd aer lleol/rhanbarthol.

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn. Rwy'n ymrwymo, yn ein canllawiau diwygiedig, i annog awdurdodau lleol yn gryf i ddatblygu strategaethau ansawdd aer lleol neu ranbarthol.

Argymhelliad 22.

Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i sicrhau bod adran 18 o Ddeddf Aer Glân 1993 yn amlinellu'r amgylchiadau pan ddylai awdurdod lleol ddatgan Ardal Rheoli Mwg. Os nad yw'r Gweinidog yn fodlon gwneud hyn, dylai ymrwymo i roi sylw i'r mater hwn mewn canllawiau statudol (gweler Argymhelliad 23).

Rwy'n gwrthod yr argymhelliad hwn. Rwyf wedi ymrwymo i gyhoeddi canllawiau ar reoli mwg, a byddaf yn gweithio gydag awdurdodau lleol i ddeall yr wybodaeth sydd ei hangen arnynt er mwyn sefydlu ardaloedd rheoli mwg fel rhan o'r broses hon. Gall datgan ardal rheoli mwg arwain at oblygiadau sylweddol ar gyfer aelwydydd unigol, felly mae'n bwysig

ein bod yn gallu diwygio'r canllawiau gydag amser. Ni fyddai'r gwelliant a amlinellir yn yr argymhelliad yn caniatáu hyn.

Argymhelliad 23.

Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i osod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi canllawiau i awdurdodau lleol ar arfer eu swyddogaethau o dan Ran III o Ddeddf Aer Glân 1993. Dylai'r canllawiau amlinellu'r amgylchiadau lle byddai disgwyl i awdurdod lleol ddatgan Ardaloedd Rheoli Mwg, ymhlith pethau eraill.

Rwy'n gwerthfawrogi bod angen pwerau i alluogi Gweinidogion Cymru i gyhoeddi canllawiau mewn perthynas ag arfer swyddogaethau awdurdodau lleol o dan Ran III o Ddeddf Aer Glân.

Mae'r Bil eisoes yn cynnwys darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ystyried canllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru. Rwyf hefyd wedi ymrwmo yn y Memorandwm Esboniadol i gyhoeddi canllawiau statudol. Felly, nid wyf yn credu bod angen creu dyletswydd statudol i gyhoeddi canllawiau.

Argymhelliad 24.

Dylai'r Gweinidog nodi'r meini prawf a ddefnyddir i benderfynu a ddylai awdurdod lleol gael cyfarwyddyd gan Weinidogion Cymru i ddatgan Ardal Rheoli Mwg. Dylai'r canllawiau a roddir i awdurdodau (gweler Argymhelliad 22) egluro'r meini prawf hyn.

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor. Er nad ydwyf yn gallu cadarnhau'r meini prawf hyn ar hyn o bryd, gallaf ymrwmo i wneud hynny pan fydd y canllawiau ar Ardaloedd Rheoli Mwg yn cael eu cyhoeddi. Rydym wedi ymrwmo i wneud hynny erbyn mis Mawrth 2025.

Argymhelliad 25.

Dylai'r Gweinidog ystyried a ellid a sut gellid ehangu'r ddarpariaeth rheoli mwg ledled Cymru heb effeithio'n andwyol ar aelwydydd sy'n dibynnu ar danwydd solet i goginio a gwresogi.

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn. Gallaf gadarnhau bod hon yn ystyriaeth barhaus a fydd yn rhan o'r camau nesaf yn dilyn deddfu.

Argymhelliad 26.

Dylai'r Gweinidog egluro pa fesurau a nodir yn yr ymgynghoriad ar leihau allyriadau o losgi tanwydd solet domestig y gellid eu cyflwyno gan ddefnyddio pwerau gwneud rheoliadau presennol a pha rai y byddai angen deddfwriaeth sylfaenol bellach arnynt.

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn. Pan fyddaf yn cyhoeddi canlyniadau'r ymgynghoriad a'r camau nesaf y byddwn yn eu cymryd i leihau allyriadau o losgi tanwydd solet domestig, byddaf yn ysgrifennu at y Pwyllgor i roi'r wybodaeth hon iddynt.

Argymhelliad 27.

Cyn y ddadl Cyfnod 1, dylai'r Gweinidog gyhoeddi ymateb Llywodraeth Cymru i'w hymgyngoriad ar leihau allyriadau o losgi tanwydd solet domestig, gan gynnwys y camau nesaf. Dylai'r ymateb gynnwys amserlen ddiwygiedig ar gyfer gwneud rheoliadau sy'n addas o uchelgeisiol.

Er nad wyf yn gallu ymrwymo i gyhoeddi crynodeb o'r ymatebion cyn y ddadl Cyfnod 1, byddaf yn cyhoeddi'r rhain cyn gynted ag y bo modd. Byddaf yn gynnwys y wybodaeth hon gyda'r wybodaeth a anfonaf at y Pwyllgor o dan argymhelliad 26.

Argymhelliad 28.

Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant/gwelliannau yng Nghyfnod 2 i gynnwys dyletswydd ar Weiniogion Cymru i ymgynghori cyn gwneud cynllun codi tâl ar ddefnyddwyr cefnffyrdd at ddiben lleihau neu gyfyngu ar lygredd aer. Rhaid i ymgynghoreion gynnwys y rhai y mae'r cynllun codi tâl arfaethedig yn debygol o effeithio arnynt, gan gynnwys y cyhoedd a busnesau.

Rwy'n deall yn llawn ac yn cytuno â'r pwysigrwydd mae'r Pwyllgor yn ei roi ar ymgynghori â'r cyhoedd. Fodd bynnag, yn yr achos hwn ni fyddai dyletswydd i ymgynghori'n ychwanegu gwerth, o ystyried y pwyslais presennol ar wneud hynny. Rwy'n ailadrodd fy ymrwymiad i ymgynghori cyn cyflwyno cynllun codi tâl ar ddefnyddwyr ffyrdd at ddiben lleihau neu gyfyngu ar lygredd aer.

Hefyd, mae Canllawiau Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG) yn amlinellu'n glir bwysigrwydd cynnwys rhanddeiliaid ac ymgysylltu â'r cyhoedd wrth gasglu tystiolaeth o'r angen i ymyrryd. Mae WelTAG yn broses gydweithredol, sy'n ei gwneud yn ofynnol cynnwys pobl y mae'n bosibl y bydd penderfyniadau'n effeithio arnynt, wrth gasglu tystiolaeth am effeithiau'r opsiynau a gynigir a chanlyniadau gwneud dim.

Argymhelliad 29.

Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant/gwelliannau yng Nghyfnod 2 i sicrhau bod yr enillion net o gynlluniau codi tâl ar ddefnyddwyr cefnffyrdd a wneir at ddiben lleihau neu gyfyngu ar lygredd aer yn cael eu defnyddio at ddiben hwyluso'r broses o gyflawni polisiau sy'n ymwneud ag ansawdd aer yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, gan gynnwys teithio llesol.

Rwy'n gwrthod yr argymhelliad hwn. Er fy mod yn cytuno ag egwyddor defnyddio cyllid at ddibenion trafniadaeth gynaliadwy ac ansawdd aer, byddai neilltuo cyllid yn lleihau'r hyblygrwydd a'r cyfleoedd i sicrhau bod gwerth am arian yn cael ei ystyried. Rwy'n credu y bydd y broses amlinelli yn Atodlen 2 o'r Bil eisoes yn ein galluogi i gyflawni bwriad y Pwyllgor. Bydd hyn yn caniatáu lefel briodol o hyblygrwydd ynghylch sut i ddefnyddio cyllid i gael y canlyniadau gorau, heb gael ein rhwystro'n ddiangen gan ddeddfwriaeth.

I sicrhau ffocws ar ansawdd aer wrth wneud penderfyniadau ynghylch cyllidebau, mae'r broses a roddir yn Atodlen 2 yn ei gwneud yn ofynnol asesu effeithiau disgwylidig cynigion mewn perthynas ag ansawdd aer. Disgwylid i gynlluniau teithio llesol fod o fewn y diffiniad hwn, o ystyried eu capasiti i wrthbwysu llygredd o allyriadau drwy leihau nifer y siwrneiau mewn cerbydau.

Argymhelliad 30.

Dylai Llywodraeth Cymru nodi amserlen ar gyfer cyflwyno'r rheoliadau i roi lefelau newydd o ddirwyon ar waith, gan gynnwys pryd mae ymgynghoriad i fod i gael ei gynnal.

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn. Bydd y Memorandwm Esboniadol yn cael ei ddiwygio i gynnwys amserlen

Argymhelliad 31.

Dylai Llywodraeth Cymru weithio gydag awdurdodau lleol i ddatblygu a gweithredu ymgyrch ymwybyddiaeth y cyhoedd gynhwysfawr i addysgu'r cyhoedd am effeithiau niweidiol segura.

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn. Yn ein Cynllun Aer Glân rydym yn cydnabod bod cyfathrebu effeithiol ynghylch ansawdd aer, i sicrhau newid ymddygiad, yn allweddol i ddiogelu'r amgylchedd ac iechyd cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. O ystyried pwysigrwydd codi ymwybyddiaeth fel rhan o'r gweithredu ehangach i fynd i'r afael â gadael i injans cerbydau seguro yn ddiangen, mae'n dilyn y dylid cefnogi ymgyrch gynhwysfawr. Mae'r Memorandwm Esboniadol eisoes yn rhoi cyfleoedd i gynnal ymgyrchoedd gwrthsegura mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol. Gellir cynnwys hyn yn ein cynllun cyflawni i godi ymwybyddiaeth.

Argymhelliad 32.

Dylai Llywodraeth Cymru gynnwys diffiniad o seinweddau ar wyneb y Bil neu, fel arall, yn y Memorandwm Esboniadol.

Rwy'n derbyn yr ail awgrymiad a wneir yn yr argymhelliad hwn. Rwy'n cytuno bod angen eglurder ynghylch ystyr seinweddau, ond byddai diffiniad ar wyneb y Bil yn lleihau hyblygrwydd ac ni fyddai'n ein galluogi i ymateb i newid. Rwy'n ymrwymo i ddiffiniad o seinweddau gael ei fewnosod i'r Memorandwm Esboniadol a'r strategaeth seinweddau genedlaethol ei hun. Dyma'r dull a ffeirir ac mae'n gyson â'r cyngor llafar a roddwyd i'r Pwyllgor gan y Sefydliad Acwsteg ar 11 Mai.

Argymhelliad 33.

Dylai Llywodraeth Cymru greu panel cyngori arbenigol sy'n cynnwys rhwydweithiau gwyddonol, elusennau, a cholegau brenhinol sy'n gweithio ym maes seinweddau.

Rwy'n cytuno y dylai Gweinidogion Cymru dderbyn cyngor arbenigol ar y pwnc hwn, ond mae angen cwestiynu a fyddai gwerth ychwanegol sefydlu panel ffurfiol (yn ogystal â'r cyngor comisiynu ad hoc) yn gwrthbwysu'r costau gweinyddol, ac a fyddai'n darparu'r hyblygrwydd sydd ei angen. Byddwn yn ystyried rhinweddau'r cynnig yng ngoleuni'r ymatebion a gyflwynir i'r ymgynghoriad agored ar Gynllun Sŵn a Seinwedd 2023–2028, sy'n cau ar 2 Hydref ac yn gofyn cwestiwn penodol am y pwnc hwn. Byddwn hefyd yn craffu yn fanwl ar ymateb Llywodraeth y DU i argymhelliad diweddar Pwyllgor Gwyddoniaeth a Thechnoleg Tŷ'r Arglwyddi i sefydlu panel cyngori rhyngddisgyblaethol annibynnol ar gyfer sŵn, gan ei bod yn bosibl y bydd cyfle ar gyfer cydweithio ledled y DU yn y maes hwn. Rwy'n ymrwymo i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am unrhyw benderfyniadau a wneir yn hyn o beth.

Argymhelliad 34.

Dylai Llywodraeth Cymru nodi pa adnoddau ychwanegol y bydd yn eu darparu i awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus i fynd i'r afael â'r bylchau presennol mewn gwybodaeth a gwella eu gallu i roi polisïau seinweddau ar waith yn effeithiol.

Ni fyddwn yn gallu rhoi ymateb llawn i'r argymhelliad hwn nes ein bod wedi ystyried yn llawn yr ymatebion a gyflwynir i'r ymgynghoriad agored ar Gynllun Sŵn a Seinwedd 2023–2028, sy'n cau ar 2 Hydref, wedi cynnal rhagor o drafodaethau â sefydliadau partner, ac wedi gwneud penderfyniadau mewn perthynas â'r TAN 11 newydd. Gallaf ymrwymo i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor yn y flwyddyn newydd pan fydd rhagor o wybodaeth ar gael.

Argymhelliad 35.

Dylai Llywodraeth Cymru gynnwys rhanddeiliaid allweddol yn y gwaith o baratoi ac adolygu'r Strategaeth Seinweddau Genedlaethol. Dylai'r Gweinidog egluro i ba raddau roedd rhanddeiliaid allweddol yn ymwneud â'r Strategaeth ddrafft, a gyhoeddwyd ar gyfer ymgynghoriad ar 26 Mehefin 2023.

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn, ac yn cadarnhau y gall Llywodraeth Cymru ymrwymo i fynd ati'n weithredol i gynnwys rhanddeiliaid allweddol yn y gwaith o baratoi ac adolygu'r Strategaeth Seinweddau Genedlaethol.

Nid y cynllun cyntaf o'i fath yw'r fersiwn drafft o Gynllun Sŵn a Seinwedd Cymru 2023–2028, ac nid yw'r polisiau sydd ynddo yn newydd i'r rhai sydd eisoes ar waith yn y maes hwn. Y cynllun drafft rydym yn cynnal ymgynghoriad 14 wythnos yn ei gylch ar hyn o bryd yw'r synthesis/diweddariad diweddaraf o holl bolisiau Llywodraeth Cymru yn y maes hwn. Maent ar gael i'r cyhoedd i raddau helaeth, ac maent wedi bod yn destun llawer o drafodaethau â rhanddeiliaid perthnasol dros y blynyddoedd diwethaf. Dylai'r rhan fwyaf o'i gynnwys fod yn gyfarwydd i'r rhai sydd eisoes yn gyfarwydd â Chynllun Gweithredu ar Sŵn a Seinwedd 2018–2023 a'r fersiwn drafft o'r TAN 11 newydd y gwnaethom gynnal ymgynghoriad yn ei gylch y llynedd. Cafodd y ddwy ddogfen eu datblygu ar y cyd â phartneriaid allanol. I raddau helaeth mae'r Cynllun diwygiedig hwn yn cynnwys polisiau Llywodraeth Cymru sydd eisoes wedi'u sefydlu, ac ni fu angen yr un lefel o gydgyhyrchu â rhanddeiliaid arno ag a fyddai ei hangen wrth ddechrau o'r cychwyn un ar strategaeth gyntaf mewn maes polisi newydd, neu ar strategaeth ddiwygiedig sy'n cynnig newid sylfaenol i gyfeiriad polisi.

Dylai'r Pwyllgor werthfawrogi na fyddai modd rhannu'r ddogfen ei hun â holl aelodau sefydliadau mawr fel y Sefydliad Acwsteg a'r Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd, nes imi ei chymeradwyo i fod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus. Fodd bynnag, cafodd drafft a oedd yn agos at y fersiwn derfynol ei rannu ag unigolion yn y Sefydliad Acwsteg, Cymdeithas yr Ymgynghorwyr Sŵn, y Gymdeithas Lleihau Sŵn, Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd a Rhwydwaith Acwsteg y DU, gan gynnwys rhai sydd wedi bod o dan gontract gyda Llywodraeth Cymru i'n cefnogi mewn perthynas â mapio sŵn, sŵn pypiau gwres a dylunio seinweddau, ac eraill nad ydynt wedi'u rhwymo i Lywodraeth Cymru drwy gontract, ar sail ymddiriedaeth cyn yr ymgynghoriad cyhoeddus, i wirio am unrhyw hepgoriadau difrifol neu unrhyw beth a fyddai'n rhoi stop ar y cynlluniau. Gwnaed gwelliannau o ganlyniad i'r awgrymiadau a dderbyniwyd.

Mae Llywodraeth Cymru yn mynd ati'n weithredol i ymgysylltu â rhanddeiliaid yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus 14 wythnos, gan gynnwys cwrdd â rheoleiddwyr sŵn (Cyfoeth Naturiol Cymru ac awdurdodau lleol), Grŵp Tirwedd Cymru, Cangen Cymru o'r Sefydliad Acwsteg, a Chynhadledd Rheol Sŵn Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd.

Bydd y strategaeth seinweddau genedlaethol gyntaf ar ôl i'r Bil ddod yn ddeddf yn cael ei datblygu erbyn 2028, a bydd yn cael ei chynhyrchu gan Lywodraeth nesaf Cymru. Nid yn unig mae ein hymgynghoriad presennol yn ceisio barn ar y fersiwn drafft o'r Cynllun Sŵn a Seinwedd a gyhoeddwyd eleni, ond mae hefyd yn awgrymu, os yw sgiliau a phrofiad sy'n gysylltiedig â seinweddau'n cynyddu yn ystod y pum mlynedd nesaf, gallai fersiwn ddiwygiedig o'r strategaeth seinweddau genedlaethol yn 2028 fod yn fwy uchelgeisiol o ran yr hyn a ddisgwylir gan ymarferwyr na'r strategaeth rydym yn ymgynghori yn ei chylch eleni. Bydd y farn sy'n cael ei chasglu oddi wrth rhanddeiliaid allweddol yn llywio'r gwaith o

ddatblygu polisiâu ar sŵn a seinwedd gan yr weinyddiaeth hon a'r un nesaf, a bydd yn helpu i lunio'r strategaeth a gynhrychir o dan y Ddeddf hon yn 2028.

Atodiad 2

Mynd i'r Afael â Llygredd Amaethyddol yng Nghymru

Mae'r canlynol yn wybodaeth am amrediad o fesurau sydd gennym i fynd i'r afael â llygredd amaethyddol yng Nghymru a'i effaith ar ein hamgylchedd:

Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol

Mae Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 ("Rheoliadau CoAP") a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2021, yn seiliedig ar argymhellion arfer da hirsefydlog wedi'u cynllunio i atal llygredd amaethyddol.

Er mai prif nod Rheoliadau CoAP yw lleihau llygredd dŵr, mae'r mesurau wedi'u cynllunio i osgoi cyfnewid llygredd ac atal lefelau uwch o faethynnau, gan gynnwys amonia, rhag cael eu colli i'r amgylchedd, neu leihau hynny. Drwy ddefnyddio'r dull hwn, mae Rheoliadau CoAP yn cyflawni yn erbyn amrediad eang o gyfrifoldebau rhyngwladol a domestig Cymru, ac yn darparu ymateb cyfannol i'r heriau amgylcheddol sy'n gysylltiedig ag allyriadau amonia.

Mae Rheoliadau CoAP yn cynnwys y mesurau canlynol:

- Cynllunio Rheoli Maethynnau;
- Defnyddio gwrtaith mewn modd cynaliadwy un unol ag anghenion y cnwd;
- Diogelu dŵr rhag llygredd sy'n gysylltiedig â lle, pryd a sut mae gwrteithiau'n cael eu gwasgaru; a
- Safonau storio tail;

Rhaid i Reoliadau CoAP gael eu hadolygu bob pedair blynedd o leiaf. Bydd pob adolygiad o'r rheoliadau'n parhau i ystyried maethynnau'n cael eu colli i'r amgylchedd, gan gynnwys amonia. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ystyried ymhellach gynigion a dderbyniwyd ynghylch mesurau amgen, wedi'u cyflwyno o dan Reoliad 45, fel rhan o'r adolygiad 4-blynedd nesaf. Mae'r cynigion yn cynnwys mesurau a all fod yn fuddiol er mwyn lleihau allyriadau amonia o weithgareddau amaethyddol.

Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd, deddfwriaeth Trwyddedu Amgylcheddol a Chynllunio Gwlad a Thref

Mae proses yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd, o dan Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017, yn asesu a allai cais am drwydded amgylcheddol neu gais am ganiatâd cynllunio gael effaith negyddol ar safleoedd dynodedig a warchodir gan gyfraith Ewrop, gan gynnwys gan allyriadau amonia. Gallai effaith y drwydded neu'r caniatâd fod ar neu ar bwys y safle Ewropeaidd dynodedig. Gall hefyd gael ei defnyddio mewn ardaloedd bwyta a ddefnyddir gan rywogaeth o safle Ewropeaidd dynodedig.

Os penderfynir y gallai trwydded neu ganiatâd gael effaith negyddol ar y safleoedd hyn, rhaid gwrthod y cais am drwydded neu ganiatâd, oni bai bod ffyrdd o osgoi neu liniaru ar unrhyw effaith bosibl.

Mae angen trwydded amgylcheddol o dan Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016 os oes gan fferm fwy na 40,000 o leoedd ar gyfer dofednod, mwy na 2,000 o leoedd ar gyfer moch cynhyrchu (dros 30kg) neu dros 750 o leoedd ar gyfer hychod.

Mae datblygiadau amaethyddol sy'n rhyddhau amonia'n cynnwys y canlynol:

- Ffermio dofednod: gan gynnwys cyw ieir, tyrcïod, ieir gini, hwyaid, gwyddau, soffieir, colomennod, fasantod a phetris sy'n cael eu magu neu eu cadw'n gaeth at ddibenion bridio, cynhyrchu cig neu wyau i'w bwyta, neu er mwyn ailstocio'r cyflenwad o adar hela.
- Ffermio moch: pob math.
- Ffermio gwartheg godro: pob math.
- Ffermio cig eidion: pob math.
- Treulio anaerobig a'r gweithgareddau cysylltiedig: deunydd bwydo a gweddillion treulio anaerobig.
- Storfeydd slyri: pob math.
- Defnyddio wrea i leihau nitrogen ocsid.
- Gwasgaru ar dir: os yw'n ofynnol i fferm gynnal Aseiad Rheoliadau Cynefinoedd, Aseiad Effaith Amgylcheddol, neu os yw'n agos at safle sensitif, yno rhaid cynnwys gwasgaru ar dir yn yr aseidiadau o'r effeithiau.

Pan fydd slyri neu dail yn cael eu gwasgaru ar dir heb unrhyw fanteision y gellir eu dangos i'r pridd neu dwf cnydau, neu os ydynt yn fwy nag anghenion maethynnau'r cnwd, maent yn cael eu hystyried yn wastraff. Hefyd mae tail a slyri a ddefnyddir mewn proses drin, neu sy'n cael eu storio cyn proses drin, er enghraifft compostio neu dreulio anaerobig, yn cael eu hystyried yn wastraff. Mae'r gweithrediadau hyn yn ddarostyngedig i Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru y Lloegr) 2016 ac mae angen trwydded amgylcheddol neu esemptiad arnynt. Os yw unrhyw niwed yn cael ei beri i'r amgylchedd neu iechyd pobl ar unrhyw adeg drwy gasglu, storio neu ddefnyddio tail neu slyri, maent yn cael eu hystyried yn wastraff.

O dan Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016, mae achosi neu ganiatáu i sylwedd gwenwynig, darniweidiol neu sylwedd sy'n llygru, neu wastraff solet ollwng i ddyfroedd a reolir, gan gynnwys dŵr daear a dŵr wyneb yn drosedd, oni bai bod y gweithriad wedi'i ganiatáu gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

Mae Rhan 2 o'r Cod Ymarfer Amaethyddol Da (CoGAP) yn God Statudol o dan Adran 97 o Ddeddf Adnoddau Dŵr 1991. Er nad oes rhaid i fferm ddilyn y cyngor a roddir yn Rhan 2, mae'n bosibl y bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn ystyried a yw wedi gwneud hyn wrth benderfynu ar gamau gorfodi yn dilyn unrhyw achos o lygru dŵr. Er nad yw hyn yn berthnasol i unrhyw gyngor a roddir dim ond i leihau'r risg o lygredd aer, mae llawer o'r cyngor sy'n gysylltiedig â lleihau llygredd dŵr hefyd yn fanteisiol wrth leihau allyriadau amonia. Yn 2019, cafodd y Cod Ymarfer Amaethyddol Da ei ategu gan ganllawiau ar leihau gollyngiadau amonia o amaethyddiaeth yng Nghymru. Mae canllawiau 2019 yn adlewyrchu fframwaith Cod UNECE ar Ymarfer Amaethyddol Da ar gyfer lleihau allyriadau amonia.

Rhaglen Genedlaethol Rheoli Llygredd Aer

Ym mis Chwefror 2023, cafodd Rhaglen Genedlaethol Rheoli Llygredd Aer (NAPCP) ei chyhoeddi yn unol â gofynion Rheoliadau Terfynau Uchaf Allyriadau Cenedlaethol 2018. Mae'r NAPCP yn amlinellu mesurau a dadansoddiadau ynghylch sut y gellir bodloni'r ymrwymïadau a sefydlwyd gan y Rheoliadau, gan gynnwys ar gyfer amonia, ledled y DU.

Mae'r NAPCP yn amlinellu'r opsiynau polisi a ddewiswyd i'w hystyried ymhellach i gydymffurfio â'r ymrwymadau i leihau allyriadau yng Nghymru, mewn perthynas ag amaethyddiaeth:

- Defnyddio gwrrtaith / tail allyriadau isel ar dir cnwd a glaswelltir
- Rheoli da byw yn well a gosodiadau magu gwell
- Systemau gwell ar gyfer rheoli tail / gwastraff anifeiliaid

Mae Llywodraeth Cymru yn mynd ati'n weithredol i ystyried a oes angen mesurau ychwanegol i sicrhau gostyngiadau pellach mewn allyriadau amonia, gan gynnwys y niferoedd sy'n defnyddio mesurau perthnasol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy a Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol.

Trosglwyddo Gwybodaeth

Ym mis Ebrill 2021, lansiodd offeryn ar-lein i helpu ffermwyr i leihau allyriadau amonia. Mae'r offeryn yn cynnwys canllawiau'r CoGAP ar leihau allyriadau amonia i gyflwyno camau ymarferol y gall ffermwyr eu cymryd i leihau allyriadau.

Cynlluniau Gwledig

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu amrediad o gynlluniau gwledig sy'n galluogi ffermydd i gynnal gweithgareddau sydd â'r potensial i leihau allyriadau amonia, gan gynnwys grantiau ar gyfer gorchuddio iardiau, creu coetir ac arallgyfeirio amaethyddol.

Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy

Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn datblygu cymorth ar gyfer amaethyddiaeth yn y dyfodol yn dilyn ein hymadawiad â'r Undeb Ewropeaidd, yn lle'r Polisi Amaethyddol Cyffredin. Roedd yr Ymgynghoriad Ffermio Cynaliadwy a'n Tir a'r Papur Gwyn Amaethyddiaeth (Cymru) yn amlinellu'r ffordd mai Rheoli Tir yn Gynaliadwy fydd yr egwyddor gyffredinol ar gyfer polisi a chymorth amaethyddol yn y dyfodol. Bydd y Cynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig yn disodli Cynllun y Taliad Sylfaenol presennol.

Y brif newid yw y bydd lefel y taliad wedi'i chysylltu â'r camau y mae ffermwyr yn eu cymryd i sicrhau canlyniadau Rheoli Tir yn Gynaliadwy, gydag "aer glân" yn un ohonynt".

Bydd y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn gwneud hyn drwy:

- Rhoi cyngor cyfredol i ffermwyr ynghylch sut i leihau allyriadau amonia drwy'r Rhaglen Rhannu Gwybodaeth ac Arloesi (Cyswllt Ffermio).
- Gwobrwyo ffermwyr am arferion ffermio sy'n lleihau allyriadau amonia.
- Cefnogi dulliau cydweithredol i ffermwyr gymryd camau i leihau amonia, wedi'u targedu er mwyn rhoi'r manteision gorau posibl i ecosystemau.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targed i blannu 43,000 hectar o goetir newydd erbyn 2030, a 180,000 hectar erbyn 2050 i fodloni'r "llwybr cytbwys" a amlinellir gan Gomisiwn y DU ar Newid Hinsawdd. Mae gwaith wedi dechrau ar ddatblygu Coedwig Genedlaethol i Gymru. Bydd y Goedwig Genedlaethol yn creu ardaloedd o goetiroedd newydd ac yn helpu i adfer a chynnal rhai o goetiroedd hynafol unigryw Cymru. Ymhen amser, bydd yn creu rhwydwaith cysylltiedig drwy Gymru, gan ddod â buddiannau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. Y llynedd arweiniodd y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd archwiliad manwl i weld sut rydym yn gallu gael gwared ar y rhwystrau i blannu coed yng Nghymru. Nododd yr archwiliad hwn gyfres o gamau, gan gynnwys ffyrdd o gefnogi unigolion a chymunedau i

blannu coed, cynllun ariannu newydd ar gyfer creu coetiroedd a strategaeth ddiwydiannol i gydgyssylltu'r gadwyn cyflenwi pren a'r sectorau adeiladu.

Bydd ffermwyr yn chwarae rôl fawr wrth helpu i gyflawni'r targedau ar gyfer plannu coed, a hynny mewn ffordd sy'n cyflawni yn erbyn nifer o ganlyniadau o ran rheoli tir yn gynaliadwy – fel aer glân ac ecosystemau cydnerth. Dangoswyd bod plannu coed mewn modd strategol ar bwys ffynonellau amonia fel lagwnau slyri neu adeiladau stoc da byw, neu sefydlu clustogfeydd rhwng coetiroedd hynafol a ffynonellau amonia, yn atal neu'n leihau lledaeniad amonia. Bydd yr opsiynau hyn yn cael eu cefnogi drwy'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Mae'r Map Cyfleoedd Coetir, offeryn GIS sy'n nodi lle y byddai creu coetir newydd yn creu'r manteision mwyaf posibl i'r ecosystem, wedi cael ei ddiweddarau ac mae bellach yn cynnwys haen ddata'n dangos ardaloedd lle y byddai plannu coetir yn atal lledaeniad amonia, rhywbeth y dangoswyd eu bod yn cael effaith niweidiol ar gynefinoedd. Bydd cynigion ar gyfer plannu coetir mewn ardaloedd lle mae allyriadau amonia'n uwch yn derbyn sgôr uwch, a bydd hyn yn eu gwneud yn fwy tebygol o dderbyn grant ar gyfer plannu coed.



Aelodau'r Pwyllgor Busnes

13 Gorffennaf 2023

Bil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru)

Annwyl Gydweithiwr,

Oherwydd amryfusedd gweinyddol, ni chafodd y ddadl Egwyddorion Cyffredinol ar Fil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) ei chynnwys yn y Datganiad Busnes i'w drafod ar 12 Medi 2023.

Mae'r Pwyllgor Busnes wedi cytuno dylai'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith gwblhau trafodion Cyfnod 2 cyn 20 Hydref 2023, ar yr amod bod y Senedd yn cytuno ar Egwyddorion Cyffredinol y Bil, ac mae'r Pwyllgor wedi trefnu trafodion Cyfnod 2 yn amodol yn unol â hynny. Byddai oedi i'r ddadl yn cael effaith sylweddol ar flaengynllun gwaith y Pwyllgor ac felly bydd y Llywodraeth yn cyflwyno cynnig i atal y Rheolau Sefydlog er mwyn galluogi'r ddadl gael ei chynnal yn unol â'r bwriad, ac rydw i'n gofyn i'r Rheolwyr Busnes gefnogi'r cynnig.

Bydd y ddadl ar y cynnig penderfyniad ariannol yn cael ei chynnal ar 19 Medi. Er na ellir cynnal unrhyw drafodion ynglŷn â'r Bil ar ôl Cyfnod 1 oni bai bod y Senedd wedi cytuno ar benderfyniad ariannol; os bydd y Senedd yn cytuno ar Egwyddorion Cyffredinol y Bil, bydd y ffenestr ar gyfer cyflwyno gwelliannau Cyfnod 2 yn agor, a fyddai'n caniatáu i'r Bil ddilyn yr amserlen bresennol.

Rwy'n gobeithio bydd dod â hyn i'ch sylw nawr yn rhoi digon o amser i chi drafod gyda chydweithwyr cyn inni gyfarfod nesaf ac ymddiheuraf am yr oruchwyliaeth weinyddol

Rwy'n copïo'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a Chadeirydd y Pwyllgor Cyllid.

Cofion,

Lesley Griffiths AS/MS
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd
Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Peter Perry,
Prif Swyddog Gweithredol, Dŵr Cymru

25 Gorffennaf 2023

Israddio Dŵr Cymru

Nodaf gyda phryder yr adroddiadau diweddar bod Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) wedi israddio Dŵr Cymru i sgôr dwy seren, gan nodi bod angen gwella. Daw hyn yn dilyn dirywiad mewn perfformiad amgylcheddol, fel yr amlinellwyd yn adolygiad blynyddol CNC. Mae'r adroddiad yn datgelu bod digwyddiadau llygredd wedi codi 7 y cant yn 2022, gyda digwyddiadau effaith fawr neu sylweddol yn cynyddu o dri i bump.

Y flwyddyn flaenorol, cafodd Dŵr Cymru ei israddio o sgôr pedair seren i sgôr tair seren yn dilyn adroddiad perfformiad amgylcheddol CNC ar gyfer 2021. Daeth hyn ar ôl canfod bod Dŵr Cymru wedi achosi 83 o achosion o lygredd yn ymwneud â charthion, o gymharu â 77 y flwyddyn flaenorol.

- Pa gamau penodol y mae Dŵr Cymru yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r materion a arweiniodd at ei israddio am yr ail flwyddyn yn olynol?
- A allwch chi egluro pam y bu cynnydd yn nifer y digwyddiadau sy'n cael eu cyfrif fel rhai "effaith fawr neu sylweddol" o dri i bump yn 2022? Sut mae Dŵr Cymru yn bwriadu lleihau nifer yr achosion o lygredd carthion, yn enwedig y rhai sy'n cael effaith fawr neu sylweddol?
- Pa wersi y mae'r cwmni wedi'u dysgu o'i berfformiad yn 2021, a sut mae'r rhain yn cael eu cymhwyso i wella'i berfformiad?

Effaith amgylcheddol

Rhyddhaodd Dŵr Cymru garthion i afonydd, llynnoedd, a'r môr o amgylch Cymru am bron 600,000 o oriau y llynedd, mwy na 25 y cant o'r holl oriau arllwys i ddyfrffyrdd ledled Cymru a Lloegr. Mae hyn yn ddealladwy wedi arwain at bryder sylweddol ymhlith y cyhoedd.

- Sut mae Dŵr Cymru yn mynd i'r afael â'r pryderon amgylcheddol sylweddol a godwyd yn sgil ei weithrediadau, yn enwedig rhyddhau carthion i afonydd, llynnoedd, a'r môr?



- Pa fesurau sy'n cael eu rhoi ar waith i leihau nifer yr oriau y mae carthion yn cael eu rhyddhau i afonydd, llynnoedd, a'r môr?

Hunan-adrodd am ddigwyddiadau

Mae disgwyl i gwmnïau dŵr hunan-adrodd digwyddiadau i CNC cyn i eraill wneud hynny, oherwydd gall ymateb cyflym liniaru effaith llygredd. Methodd Dŵr Cymru hefyd â gwella nifer y digwyddiadau yr hunan-adroddwyd amdanynt i CNC, gyda'r gyfradd yn disgyn i 65 y cant, sef gostyngiad o 7 y cant ers 2021.

- Sut mae Dŵr Cymru yn bwriadu gwella'r ffordd y mae'n hunan-adrodd digwyddiadau i Cyfoeth Naturiol Cymru, a ddisgynnodd i 65 y cant yn 2022?
- Sut mae Dŵr Cymru yn cymharu ei berfformiad a'i strategaethau rheoli llygredd â chwmnïau dŵr eraill, fel Hafren Dyfrdwy, lle na chafwyd unrhyw ddigwyddiadau llygredd difrifol yn 2022?
- Pa wersi y gall Dŵr Cymru eu dysgu o berfformiad cwmnïau dŵr eraill, yn enwedig o ran hunan-adrodd digwyddiadau?

Cynydd mewn prisiau a chynlluniau ar gyfer y dyfodol

Ym mis Ebrill, cynyddodd Dŵr Cymru ei brisiau i fil cyfartalog o £499 y flwyddyn, sef yr ail uchaf yng Nghymru a Lloegr. Mae Dŵr Cymru wedi datgan ei fod yn gweithio i gyflawni'r gwelliannau sydd eu hangen mewn amgylchiadau heriol, yn enwedig wrth iddo brofi mwy o dywydd garw ac amrywiadau eithafol yn yr hinsawdd. Deallaf fod Dŵr Cymru yn bwriadu buddsoddi £100m yn ychwanegol i wella ansawdd afonydd erbyn 2025 fel rhan o gynllun gwella gwerth £840m.

- A allwch chi roi rhagor o wybodaeth am y cynllun buddsoddi £100m i wella ansawdd afonydd erbyn 2025? Sut y bydd hyn yn mynd i'r afael yn benodol â'r materion llygredd?
- Sut mae buddsoddiad Dŵr Cymru mewn seilwaith a diogelu'r amgylchedd yn cymharu â buddsoddiad cwmnïau dŵr preifat yn y DU?
- Dywedir bod cwmnïau dŵr preifat yn y DU wedi talu difidendau sylweddol i gyfranddalwyr dros nifer o flynyddoedd. Fel cwmni nid-er-elw, sut mae rheolaeth ariannol ac ail-fuddsoddiad Dŵr Cymru yn y cwmni a'i wasanaethau yn cymharu?

Edrychaf ymlaen at eich ymateb ac esboniad manwl o sut mae Dŵr Cymru yn bwriadu mynd i'r afael â'r pryderon hyn a gwella'i berfformiad. Efallai y bydd y Pwyllgor am ddychwelyd at y mater hwn a rhai cysylltiedig eraill yn nhymor yr hydref.

Yn gywir,



Llyr Gruffydd AS,
Cadeirydd Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.



Jane Dodds

Aelod o'r Senedd dros
Canolbarth a Gorllewin Cymru


Member of the Senedd for
Mid and West Wales

Senedd Cymru

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Jane.Dodds@senedd.cymru

Welsh Parliament

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Jane.Dodds@senedd.wales

0300 200 6565 

@janedoddsdld 

@DoddsJane 

/JaneDoddsWLD 

Dyddiad | Date: 03.08.2023

Pwnc | Subject: Dŵr Cymru - inquiry

Annwyl Llŷr,

I know that you and the Climate Change, Infrastructure and Environment Committee will share my disappointment and frustration at the recent reports from Cyfoeth Naturiol Cymru to downgrade Dŵr Cymru yet again this year.

Following questions from myself to both the First Minister and the Minister for Climate Change, I am writing to ask if you would consider conducting a committee inquiry into Dŵr Cymru during the forthcoming term?

It is my view that it would be beneficial to consider the extent to which the regulatory and governance arrangements of Dŵr Cymru are delivering for citizens, in addition to considering the implications of the findings of Cyfoeth Naturiol Cymru and the progress made by Dŵr Cymru against those findings. That could include the number of serious polluting incidents, self-reporting of pollution incidents, breaches of waste permit conditions and the lack of significant improvement from 2021 in compliance with discharge permits.

I would also encourage you to consider what steps Dŵr Cymru are taking in phosphate pollution and water treatment works in the context of the delivery of new housing.

I would welcome any comments you and the committee would have on this suggestion.

Yn gywir,



Jane Dodds MS/AS

Member of the Senedd for Mid and West Wales
Aelod o'r Senedd dros Canolbarth a Gorllewin Cymru



Llys Gruffydd AS
Cadeirydd
Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

4 Awst 2023

Annwyl Llyr,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 25 Gorffennaf mewn cysylltiad â'n perfformiad amgylcheddol. Rwyf wedi ymateb i'r pwyntiau penodol rydych chi wedi'u codi yn eu tro isod.

Israddio ein Hasesiad Perfformiad Amgylcheddol

Er gwaethaf y siom o weld sgôr yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol (EPA) yn gostwng i 2* yn 2022, rwyf am eich sicrhau y byddwn yn gwneud popeth o fewn ein gallu i adfer hyn ac roeddwn i'n meddwl y byddai'n ddefnyddiol pe bawn i'n nodi'r duedd ddiweddar o'i chymharu â'r metrigau amgylcheddol allweddol hyn sy'n cyfrannu at yr EPA.

Blwyddyn	WWTW (Gwaith Trin Dŵr Gwastraff – cyfanswm o 597)	WWTW Cydymffurfio â Thrwyddedau Gollwng	Llygredd Difrifol	Cyfanswm y llygredd	Hunan-adrodd am llygredd	Sgôr EPA
2019	5	98.3%	2	95	73%	3*
2020	3	99.7%	3	77	80%	4*
2021	5	98.3%	3	83	76%	3*
2022	6	98.7%	5	89 ¹	69%	2*

(¹ y cyfanswm o 89 o ddigwyddiadau oedd y nifer isaf ond un o ddigwyddiadau a gofnodwyd gan Gwmnïau Dŵr a Charthffosiaeth yng Nghymru a Lloegr yn 2022).

Yn unol â'n hymrwymiad i'r Prif Weinidog, mae ein Bwrdd yn rhoi'r flaenoriaeth uchaf i gyflawni'r safonau gorau posibl o ran perfformiad amgylcheddol. Rydym yn ymfalchïo yn fawr yn y ffaith fod gan Gymru hanes o berfformiad ecolegol cyrff dŵr sy'n sylweddol well na Lloegr, ac o ran nifer y traethau ymdrochi baner las yng Nghymru. Nid ar lefel Bwrdd yn unig y mae'r balchder hwnnw - mae'n cael ei rannu gan ein pobl ledled y cwmni, yn enwedig ar ochr dŵr gwastraff ein busnes, y mae ei ganlyniadau arolwg ymgysylltu diweddar yn dangos eu bod wedi ymrwymo'n gryf i'r hyn y maent yn ei wneud dros yr amgylchedd ac i Gymru. Dyna pam

roedd symud o EPA 3* i 2* o ganlyniad i'r asesiad a roddwyd ar y ddau ddigwyddiad llygredd difrifol mor bwysig i ni.

Nid fel esgus, ond fel ffactor pwysig o ran perfformiad cyffredinol ein llygredd, y dylid ystyried y sychder a'r tymheredd uchel a brofwyd yn 2022 wrth asesu ein perfformiad llygredd. Yn ystod y sychder gwelsom rai o'r lefelau afonydd isaf erioed yng Nghymru lle cafodd unrhyw rwystr a arweiniodd at ollyngiad carthion effaith uwch. Yn yr un modd, gwelodd y llif is mewn carthffosydd gynnydd o 7% yn ein cyfradd rwystrau, gan arwain at fwy o berygl o lygredd.

Mae'r prif reswm dros y gostyngiad i sgôr EPA 2* yn ymwneud â chynnydd bach (2) mewn digwyddiadau llygredd difrifol.

Y digwyddiadau oedd:

- **Crundale, Sir Benfro** – fe wnaeth gollyngiad trydydd parti gan fasnachwr lleol achosi rhwystr yn ein gorsaf bwmpio ac o'r herwydd ysgogwyd gorlif brys. Yn anffodus, ni wnaeth ein larwm telemetreg pell gychwyn ar y pryd. Mae hyn wedi cael ei gywiro erbyn hyn ac mae gosodiadau tebyg yn cael eu harchwilio ledled Cymru.
- **Tregatwg, Y Barri** – gwnaeth datblygwr gysylltiad â charthffos segur yn ddjarwybod i ni. Byddwn yn parhau i gysylltu'n agos â datblygwyr - ond mae'n anodd rhagweld y math yma o ddigwyddiad.
- **Gorsaf pwmpio carthion Cilgeti, Sir Benfro** – roedd rhwystr yn y siambr olaf cyn y pypiau cafodd a achoswyd gan malurion weips gwlyb. Byddwn felly yn cynyddu archwiliadau ar y safle yn y dyfodol.
- **Pen-y-bont ar Ogwr** - achoswyd y digwyddiad gan rwystr yn y garthffos. Rydym wedi cynyddu gwaith arolygu a monitro er mwyn atal hyn rhag digwydd eto.
- **Gwaith trin dŵr gwastraff Trebanos, Abertawe** - roedd gollwng dŵr storm y tro hwn yn cydymffurfio â thrwydded y gwaith trin, ond cafodd ei ddynodi gan Cyfoeth Naturiol Cymru fel digwyddiad llygredd serch hynny. Rydym yn buddsoddi dros £20m i wella'r gwaith yn ein cyfnod rheoleiddio nesaf 2025 – 2030.

Fel modd o gymharu â pherfformiad ar draws y sector, mae'r tabl isod yn dangos bod dau gwmni wedi bod â mwy na 10 achos o lygredd difrifol a dim ond dau ddigwyddiad o'r fath nad adroddwyd amdanynt.

Perfformiad Cymharol Llygredd Difrifol 2022 Cwmnïau Dŵr yng Nghymru a Lloegr

Nifer y digwyddiadau difrifol 2022	0	1	2	4	5	> 10	> 15
Nifer y Cwmnïau Dŵr	2	1	1	1	2	1	1*

* 19 Digwyddiad difrifol gwirioneddol

O ran cyfanswm yr achosion o lygredd nad oeddent yn ddifrifol, roedd y digwyddiadau fel a ganlyn;


Blwyddyn	Carthffosydd Budr	Gorlif Storm Gyfun	Carthffos wedi'i phwmpio	Gorsaf bwmpio	Gwaith Trin
2021	37	15	12	12	8
2022	47*	9	4	18**	11***

* Cynnydd oherwydd llif isel mewn carthffosydd adeg sychder 2022

** Cynnydd oherwydd rhwystrau a lefelau isel o achosion o fethiant offer

*** Cynnydd yn gysylltiedig â lefelau isel mewn afonydd y cafodd elifion eu gollwng iddynt ac oherwydd sychder a gafodd fwy o effaith / a oedd yn fwy gweladwy

Mae'r tabl isod yn dangos cyfanswm yr achosion o lygredd bob blwyddyn ers 2011.



Defnyddir y data uchod a gwybodaeth fwy hanesyddol i ddatblygu a gweithredu ein cynlluniau gwella a arweinir gan dystiolaeth.

Mae gennym strategaeth lleihau llygredd gynhwysfawr sy'n cyfuno amrywiaeth o weithgareddau gwella penodol yr wyf wedi'u crynhoi isod:

- **AMP7 (2020 – 2025) Buddsoddiad Cyfalaf** - mae £52m wedi'i ddyrannu i leihau'r perygl o lygredd. Hefyd, bwriedir cynnal a chadw carthffosydd, gorlifiadau stormydd, gorsafoedd pwmpio carthion a gwaith trin dŵr gwastraff a gwmpesir yn ein rhaglen fuddsoddi dŵr gwastraff gyffredinol gwerth £830m yn AMP7.
- **Monitro Carthffosydd o Bell** – larymau rhybuddio rhagfynegol cynnar i alluogi'r ymyrraeth gynharaf, sy'n ffurfio rhan o'n rhaglen ehangach 'Rhwydwaith Clyfar'. Mae hyn yn cyfuno data amser real gyda dull dadansodol o ran gwyddor data i fodelu ein rhwydwaith a thargeddu

ymyriadau ataliol. Archwilio prif bibellau pwmpio carthffosydd yn amlach, yn enwedig y rhai y gwyddys eu bod yn asedau â risg o ddigwyddiadau difrifol. Mae'r gwaith monitro hwn wedi ein helpu i leihau llifogydd carthffosydd (gellid dadlau mai hwn yw'r math gwaethaf o fethiant gwasanaeth o ran ein cwsmeriaid) a lle mae gennym hanes o berfformiadau gorau'r diwydiant er gwaethaf y glaw trwm yng Nghymru.

- Ar gyfer asedau uwchben y ddaear fel gorsafoedd pwmpio carthion / gwaith trin, rydym yn gosod offer monitro o bell newydd i gadarnhau capasiti pwmpio a mesur llif.
- **Cynlluniau Argyfwng Asedau Risg Uchel** – cynlluniau penodol gyda'r nod o atal digwyddiadau effaith uchel posibl. Gan gynnwys asesiadau a chynlluniau i ymdrin â ffactorau fel colli pŵer y prif gyflenwad.
- **Ymgyrch 'Stopio'r Bloc'** - gyda dros 90% o achosion o lygru am y tro cyntaf i'w priodoli i rwystrau carthffosydd a achosir gan weips gwlyb plastig, dyma ein hymdrech i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd yn gyffredinol er mwyn atal 'cam-drin carthffosydd' ac i dargedu cymunedau sydd â hanes rhwystr sy'n dod i'r amlwg neu sy'n hysbys. Mae hyn hefyd yn cynnwys gweithio gyda masnachwyr i leihau achosion o waredu braster ac olew i garthffosydd, gyda'r pŵer i erlyn troseddwy'r parhaus.
- **Gallu ac ymgysylltiad ein pobl** – rydym yn buddsoddi er mwyn darparu'r offer cynnal a chadw diweddaraf i'n pobl a'r hyfforddiant i fynd gydag ef. Mae gennym rig efelychu jetio carthffos yn ein canolfan hyfforddi yn Abercynon. Mae'r ymwybyddiaeth o atal llygredd a diogelu'r amgylchedd yn fwy cyffredinol yn destun cyfarfodydd tîm/sesiynau briffio ac fe'i cefnogir gan y Tîm Gweithredol trwy gyfathrebu megis fy ngalwad byw i'r holl gydweithwyr bob mis. Rydym hefyd wedi buddsoddi mewn Rheolwyr Cyswllt Ansawdd Afonydd a mwy o Dechnegwyr Atal Llygredd sy'n cwmpasu Cymru, sy'n rhyngweithio'n ddyddiol â chymunedau lleol a grwpiau â buddiant yn nalgylchoedd afonydd. Mae ein timau dŵr gwastraff, yn cael gwybodaeth am berfformiad o'i gymharu â'r targed ac yn cael eu hannog i gyfrannu at ein cynlluniau gwella.

Yn gyffredinol mae ein trefniadau gwella yn destun goruchwyliaeth reolaidd a herio adeiladol gan ein tîm Gweithredol a'n Bwrdd. Mae Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch ein Bwrdd (QSC), yn unigryw yn y sector, ac mae'n gyfrifol am waith craffu manwl ar ein perfformiad sy'n sail iddo ddwyn ein rheolaeth i gyfrif. Mae hefyd yn ymwneud yn agos â datblygu strategaethau gwella amgylcheddol. Mae'n cynnwys ymgynghorydd arbenigol annibynnol (cyn Gyfarwyddwr strategaeth cwmni dŵr blaenllaw ac ymgynghorydd amgylcheddol uchel ei barch ar hyn o bryd) i gynorthwyo'r gwaith craffu a herio o ran y modd yr ydym yn defnyddio cynlluniau gwella effeithiol a defnyddio technolegau cyfoes ac ati.

O ran y gwersi a ddysgwyd o 2022 fe fyddwn i'n crynhoi fel a ganlyn:

- Mae gennym lefel gynyddol o offer technoleg monitro o bell wedi eu gosod yn ein hasedau. Mae sicrhau lefel gyson o oruchwyliaeth rheoli o weithrediad a chynnal a chadw'r dechnoleg hon yn hanfodol bwysig. Mae hyn yn gysylltiedig â digwyddiad Crundale y cyfeirir ato uchod.
- Yn gysylltiedig â'r uchod, byddwn hefyd yn parhau i gyflwyno offer monitro o bell i gadarnhau gweithrediad pypiau a bod offer ar-lein ac yn perfformio i statws safonol disgwyliedig.

- Rydym yn sicrhau ein bod yn targedu buddsoddiad yn y dyfodol i liniaru asedau a allai fod â risg uchel – mae hyn yn cynnwys £170m i newid prif bibellau pwmpio carthffosydd strategol yng ngogledd a de Cymru. Byddwn hefyd yn cynyddu lefelau cyfalaf cynnal a chadw gyda chynnig i ddyblu gwaith cynnal a chadw carthffosydd gyda £50m yn AMP 8 (2025 – 2030).
- Parhau i ddatblygu ein gallu Rhwydwaith Clyfar, gyda lefel barhaus o ganolbwyntio ar dechnoleg newydd bosibl a ffyrdd o weithio i atal perygl o lygredd. (Gweler yr adran *Cymharu Perfformiad â Chwmmnïau Eraill* isod).
- Parhau i ymgysylltu â'r cyhoedd i leihau nifer yr achosion o rwystrau carthffosydd a pharhau i lobio dros wahardd weips gwlyb plastig yng Nghymru.

Mae ein hasesiad o berygl difrifol o lygredd yn dangos mai'r bygythiad mwyaf o ran digwyddiadau yn y dyfodol yw methiant nifer o brif bibellau pwmpio carthion strategol. Fel Prif Bibell Arfordir De-ddwyrain Cymru, Prif Bibell Cinmel yng ngogledd Cymru a Phrif Bibell Bynea yn ne-orllewin Cymru. Rydym wedi cynnwys y rhain yn ein cynlluniau buddsoddi AMP 8. Yn amlwg, bydd angen cymeradwyaeth reoleiddiol i helpu i liniaru'r peryglon sylweddol hyn.

Effaith Amgylcheddol

Er mwyn osgoi amheuaeth, mae'n ddrwg gennym bob amser am unrhyw effaith amgylcheddol niweidiol yr ydym yn ei hachosi ac rydym wedi ymrwymo'n llwyr i wneud yn well.

Rydym yn derbyn yn llawn bod gennym lefel uchel o ollyngiadau gorlif dŵr storm cyfun (CSO) o'i gymharu â chwmmnïau dŵr eraill ac mae ffactorau sylweddol y dylid eu hystyried mewn cysylltiad â hyn:

- **System Garthffosiaeth Gyfun** – mae gennym un o'r canrannau uchaf (tua 65%) o rwydwaith carthffosydd cyfun yn y DU. Lle mae ein carthffosydd yn cludo carthion a dŵr wyneb, mae hyn yn rhannol oherwydd oedran y stoc dai yng Nghymru.
- **Glawiad** – gan ein bod ar ochr orllewinol y DU cawn lefelau glawiadau sydd ymysg yr uchaf ac yn gynyddol gwelwn y cyfnodau mwyaf o 'ddigwyddiadau' glawiadau dwys sy'n gysylltiedig â newid hinsawdd. Glawiadau sy'n ysgogi CSOs yn uniongyrchol i atal llifogydd. Pe baem â glawiad East Anglia, byddai ein CSOs yn gweithredu 60% yn llai nag y maent ar hyn o bryd.
- **Nifer y Gorlifoedd Storm Cyfun (CSOs)** – mae nifer ein dalgylchoedd dŵr gwastraff (rhai ohonynt yn fach iawn), teneurwydd poblogaeth, daearyddiaeth a thopograffeg, yn golygu bod gennym fwy o seilwaith carthffosiaeth i wasanaethu ein cwsmeriaid o'i gymharu â chwmmnïau eraill. Mae hyn yn cynnwys mwy o CSOs, tua 2,300 o'u cymharu â Thames neu Southern Water sydd â thua 300 yr un.

Hefyd, mae gan lawer o'n dalgylchoedd afonydd raddiannau hydrolog serth a disgrifir yr afonydd yn rhai 'fflachiog' oherwydd y cynnydd cyflym mewn llif sy'n gysylltiedig â glawiad a gostyngiad dilynol pan fydd glawiad yn gostegu. Mae ystyried yr holl ffactorau hyn yn golygu, er bod gennym lefel uchel o weithrediad CSO, nid yw hyn o reidrwydd yn gysylltiedig â lefelau uchel o lygredd neu effaith amgylcheddol.

Mae prif achos llygredd afonydd yng Nghymru yn gysylltiedig â llygredd maethynnau (ffosfforws). Rydym yn llwyr gefnogi polisi Llywodraeth Cymru o wneud y gwaith o leihau ffosfforws yn flaenoriaeth er mwyn gwella ansawdd afonydd.

Mae'r Prif Weinidog drwy ei raglen o 'Uwchgynadleddau Ffosffad' wedi ei gwneud yn glir mai dyma ei flaenoriaeth ac rydym wedi alinio ein strategaeth lleihau llygredd â'r dull hwn, gan y bydd yn cyflawni mwy o welliant na phe baem yn canolbwyntio ar leihau gollyngiadau o CSOs.

Rydym yn cael ein cyfarwyddo gan y strategaeth a amlygir uchod gan flaenoriaethu ein buddsoddiad lleihau ffosfforws ar y chwe afon Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) sy'n methu yn y cyfnod buddsoddi presennol ac yn AMP 8. Mae hyn yn golygu y byddwn erbyn 2030 wedi lleihau ein llwyth ffosfforws ar yr afonydd hyn 90% ac erbyn 2033 100%. Rydym wedi modelu llwytho llygredd llwyr ar afonydd ACA ac mae effaith gyfartalog CSO yn llai na 5%, tra bod llwytho ffosfforws tua 23%. Mae'r gweddill yn dod o sectorau eraill - mae'r modelu wedi cael ei wirio'n annibynnol gan CNC.

Er ein bod yn canolbwyntio ein buddsoddiad lleihau llygredd ar leihau ffosfforws nid yw hyn yn golygu nad ydym hefyd yn mynd i'r afael â CSO. Yn y cyfnod presennol rydym yn buddsoddi dros £140m ac yn AMP8 byddwn yn buddsoddi £300m yn rhagor. Yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru, rydym yn anelu buddsoddiad at y CSOs hynny sy'n achosi'r niwed amgylcheddol mwyaf sylweddol ac rydym yn cytuno i flaenoriaethu'r buddsoddiad hwn gyda CNC, drwy'r 'Fframwaith Asesu Gorf Storm' (SOAF). Mae'r asesiad hefyd yn ystyried effaith ecolegol neu amwynder ac mae hyn hefyd yn cael ei ystyried yn y broses flaenoriaethu. Bydd y dull hwn sy'n canolbwyntio ar leihau effaith amgylcheddol ac amwynder yn sicrhau gwelliant cynaliadwy sy'n well na'r hyn y gellir ei gyflawni trwy ganolbwyntio ar leihau nifer y gollyngiadau CSO yn unig.

Yn sail i resymeg y strategaeth mae cyflwr ansawdd afonydd a dŵr arfordirol yng Nghymru. Yng Nghymru, mae 44% o afonydd yn bodloni statws 'da' o dan Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yr UE, o'i gymharu â 14% yn Lloegr (ac 8% yn yr Almaen a'r Iseldiroedd). Hefyd mae prif achosion llygredd hefyd yn wahanol iawn o ran cymharu â Lloegr. Yma yng Nghymru mae llygredd carthion yn cyfrif am oddeutu 23% o gyfanswm llygredd ond yn Lloegr mae'n 44%. Bydd ein cynllun AMP8 arfaethedig yn gwella dros 750km o afonydd yng Nghymru.

Hunan-adrodd am ddigwyddiadau

Roeddem yn siomedig o weld lefel ein hunan-adrodd yn gostwng i 65% yn 2022, y prif reswm dros hyn, yw, gyda'r sychder a lefelau isel yr afonydd, roedd mwy o ddigwyddiadau'n amlwg ac yn cael eu hadrodd yn uniongyrchol i CNC er enghraifft gan y cyhoedd.

Fodd bynnag, mewn ymgais i gynyddu ein gallu i hunan-adrodd rydym yn gwneud y canlynol;

- Parhau i frifio ein cydweithwyr am bwysigrwydd hunan-adrodd a rhannu data perfformiad priodol â nhw'n rheolaidd. Yn cynnwys ein tîm canolfan reoli 24 awr i sicrhau bod larymau o bell y tu allan i oriau yn cael eu huwchraddio er mwyn ymateb yn gyflym.
- Parhau i weithio gyda grwpiau defnyddwyr afonydd ledled Cymru i feithrin perthnasoedd gwaith effeithiol a'u hannog i adrodd am unrhyw faterion gyda'n hasedau.
- Parhau i ddefnyddio monitro larymau o bell ar draws ein seilwaith dŵr gwastraff – yn arbennig y rhai sy'n gysylltiedig â'n rhaglen Rhwydwaith Carthffosydd Clyfar.
- Defnyddio technoleg newydd fel CCTV mewn asedau anghysbell neu mewn gweithfeydd trin lle nad oes modd defnyddio offer telemetreg safonol yn effeithiol.

Cymharu perfformiad â Chwmnïau Dŵr Eraill

Fel Pwyllgor Gweithredol a thrwy Bwyllgor Ansawdd a Diogelwch y Bwrdd, rydym yn disgwyl i bob un o'r strategaethau gwella amgylcheddol sylfaenol yr ydym yn eu hadolygu ddangos sut rydym yn meincnodi ein

perfformiad a chyflwyno arloesedd i'n cynlluniau gwella. Er mwyn dod â hyn yn fyw mae ein cynlluniau meincnodi a gwella yn gysylltiedig â'r canlynol:

- **Water UK National Pollution Group** – adolygiad misol o arferion gorau, perfformiad ac arloesedd a rennir gan yr holl gwmnïau / awdurdodau dŵr a charthffosiaeth yn y DU. (Mae Hafren Dyfrdwy hefyd yn rhan o'r broses hon. Mae hunan-adrodd hefyd yn cael ei adolygu yma ac mae ein harferion yn cyd-fynd yn llwyr ag arferion da yn y sector yn y maes hwn).
- **Meincnodi Rhyngwladol** - Cysylltiadau agos â Hofor, y darparwr gwasanaethau dŵr gwastraff yn Copenhagen. Meincnodi blynyddol gyda Sydney Water yn Awstralia.
- **Smart Water Networks International Association (SWAN)** – aelod sefydlol a gweithredol o'r fforwm rhyngwladol hwn ar gyfer arferion gorau wrth ddatblygu'r gwaith o gymhwyso AI a dadansoddeg rhagfynegol.
- **Ymchwil Diwydiant Dŵr y DU (UKWIR)** – Mae Tony Harrington ein Cyfarwyddwr Amgylchedd yn Aelod o Fwrdd UKWIR ac yn arwain ystod o raglenni arloesi ac ymchwil sy'n gysylltiedig â dŵr gwastraff.
- **Cronfa Arloesi Ofwat** – Unwaith eto Tony Harrington yw un o gyfarwyddwyr sefydlol SPRING y cerbyd a ddefnyddir i gydlynu ceisiadau am y gronfa AMP7 gwerth £200m ac rydym yn arwain nifer o brosiectau amgylcheddol sy'n gysylltiedig ag elfennau allweddol o'n cynlluniau gwella dŵr gwastraff yn y dyfodol.

Mae gennym hefyd ein rhaglen arloesi fewnol helaeth ein hunain, lle mae ein timau arloesi dŵr a dŵr gwastraff yn gweithio gyda 79 o sefydliadau a phrifysgolion blaenllaw (gan gynnwys y rhan fwyaf o'r Prifysgolion yng Nghymru) ar brosiectau arloesi ac ymchwil a datblygu. Mae'r rhain yn gysylltiedig, yn achos dŵr gwastraff, yn uniongyrchol â'n cynllun gwella tymor byr a risgiau / uchelgeisiau tymor hwy. Yn AMP7 rydym yn amcangyfrif y byddwn yn cyflawni trosolledd gwerth arloesi sy'n werth £80m trwy'r broses hon. Adroddwyd yn annibynnol yn ddiweddar hefyd mai ynghyd ag United Utilities (cwmni tair gwaith ein maint ni), y mae'r ddau gwmni sydd wedi gwneud cais am y nifer fwyaf o brosiectau o Gronfa Arloesi AMP 7 gwerth £200m Ofwat a'u sicrhau – i ni mae hyn wedi golygu 54 cais gyda 27 prosiect wedi'u sicrhau.

Perfformiad Cymharol Dŵr Cymru a Hafren Dyfrdwy

Diolch am gyfeirio at Hafren Dyfrdwy a'u hanes o ddim digwyddiadau llygredd difrifol yn 2022. Mae gennym berthynas waith gadarnhaol â nhw ac rydym yn cydweithio trwy'r gwahanol fforymau diwydiant fel y crybwyllwyd uchod ac yn ddwyochrog fel cwmnïau cyfagos yng Nghymru. Byddwn yn sicrhau ein bod yn parhau i rannu arferion gorau a'r hyn a ddysgwyd gan eraill ar bob cyfle.

Cwmni	Digwyddiadau Llygredd Difrifol	Llygredd fesul carthffos 10km	Cydymffurfiaeth Gweithfeydd Trin %	Llifogydd Carthffosydd Mewnol fesul cysylltiadau 10k	Cwmp Carthffosydd fesul carthffos 1km
Hafren Dyfrdwy	0	39.84	97.87%	2.34	22.36
Dŵr Cymru	5	22.90	98.32%	1.36	6.71

Cynnydd mewn prisiau a chynlluniau ar gyfer y dyfodol


Yn gyntaf oll, a gaf i ymateb i'ch sylw pan ddywedoch chi mai ni sydd â'r taliadau uchaf ond un yng Nghymru a Lloegr? Pe baech yn gwahanu ein bil yn gostau dŵr a charthffosiaeth, mewn gwirionedd, ni sydd â'r bil isaf ond dau ar gyfer gwasanaethau dŵr, sef £193 (£213 ar gyfartaledd) o'r cwmnïau yng Nghymru a Lloegr. Ein bil dŵr gwastraff yw'r uchaf ond un, sef £306 (£241 ar gyfartaledd) ac mae hyn yn gysylltiedig â'r ffaith bod cwmnïau sydd â'r arfordiroedd hiraf (h.y. South West Water a Dŵr Cymru) wedi gorfod darparu adnoddau trin carthion am y tro cyntaf i'w cymunedau arfordirol ar ôl preifateiddio. Yn achos Cymru hyd at ddiwedd y 1990au cafodd bron i 50% o'r carthion yn y wlad eu gollwng heb lawer o driniaeth os o gwbl i ddyfroedd arfordirol. Mae ein bil dŵr gwastraff ers preifateiddio wedi gorfod ariannu'r gwaith o adeiladu'r seilwaith dŵr gwastraff hwn. I ni, roedd hyn er mwyn darparu triniaeth lawn i bob cymuned uwchben 15k o boblogaeth o amgylch arfordir Cymru, gan gynnwys trefi a dinasoedd arfordirol de Cymru rhwng Cas-gwent a Chaerfyrddin. Doedd dim rhaid i gwmnïau 'mewndirol' eraill fel Severn Trent, sydd heb arfordir, ariannu'r math yma o wariant wrth i'w seilwaith gael ei drosglwyddo iddyn nhw ar adeg preifateiddio.

Mae'r tablau isod yn dangos lefel gymharol y bil cyfan yn ogystal â'i ddadansoddi i gynnwys yr elfennau dŵr a gwastraff ar wahân.

	Total		Water		Waste
South West*	526	Wessex	261	South West	310
Wessex	504	Thames	258	DCWW	306
DCWW	499	Anglian	222	Anglian	270
Anglian	492	South West	216	Southern	253
Thames	456	Severn Trent	213	Yorkshire	248
Yorkshire	446	United Utilities	210	Wessex	243
United Utilities	443	Yorkshire	198	United Utilities	233
Southern	439	Hafren Dyfrdwy	195	Severn Trent	206
Severn Trent	419	DCWW	193	Northumbrian	203
Northumbrian	391	Northumbrian	188	Thames	198
Hafren Dyfrdwy	372	Southern	186	Hafren Dyfrdwy	177
Average	<u>453</u>		<u>213</u>		<u>241</u>

* adding back the £50 rebate from the UK Government

Mae'r siart isod yn dangos y newid ym bil cartref cyfartalog ers 2001 (pan ddaeth Dŵr Cymru yn gwmni nid-elw).



Mae'r buddsoddiad ychwanegol o £100m a gyhoeddwyd gennym yn gynharach eleni i wella ansawdd afonydd erbyn 2025 yn cael ei ariannu o'n gwaged ariannol o'n strwythur nid-er-cyfranddalwyr. Bydd hwn yn cael ei ddefnyddio i fuddsoddi £40m arall i wella CSOs a bydd £60m yn cael ei ddefnyddio i leihau ffosforws ar wahanol gynlluniau ar draws afonydd ACA sy'n methu a grybwyllwyd uchod. Mae hyn i bob pwrpas yn cyflymu gofynion buddsoddi'r dyfodol er mwyn cyflawni'r gwelliannau'n gyflymach.


Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn ein Maniffesto Dŵr Afonydd a gyhoeddwyd gennym ym mis Mawrth 2023 ac sydd ar gael ar ein [gwefan](#).

Buddsoddiad Dŵr Cymru mewn seilwaith o'i gymharu â chwmnïau dŵr sy'n eiddo preifat yn Lloegr

Mae'n anodd gwneud cymhariaeth syml gan y bydd buddsoddiad pob cwmni yn cael ei gytuno'n unigol gyda rheoleiddwyr a bydd yn seiliedig ar eu gofynion cwmni penodol. Ers i Glas Cymru sefydlu'r model nid-er-elw presennol yn 2001, rydym bob amser wedi cyflawni ein rhaglenni cyfalaf rheoleiddiol y cytunwyd arnynt yn llawn. Mewn gwirionedd, yn ystod y cylchoedd AMP olaf rydym wedi defnyddio ein 'elw' i ymgymryd â mwy o fuddsoddiad cyfalaf yn ychwanegol at ein rhaglenni rheoleiddio.

Ers 2001 mae'r holl arian dros ben wedi cael ei ddefnyddio er budd cwsmeriaid, sef cyfanswm o £3.5 biliwn. Mae tua £2.9 biliwn wedi'i gadw i wneud y busnes yn fwy cydnerth yn ariannol - yn 2001 roedd ein lefel gerio ar 93%. Dros y 22 mlynedd diwethaf rydym wedi gostwng hyn i 58% ymhell o fewn y lefel ganllaw a gynigiwyd gan Ofwat. Mae'r cyhoeddusurwydd diweddar ynghylch Thames Water wedi amlygu'r ffaith bod eu gerio ar 83%. Mae ein lefel isel o gerio a'n dull gweithredu ariannol darbodus wedi ein rhoi mewn sefyllfa ariannol sefydlog. Ynghyd â'n model nid-er-cyfranddalwyr, mae hyn wedi rhoi statws credyd sy'n arwain y sector i ni sy'n caniatáu i ni fenthyg arian am gost is, sy'n rhoi gwell gwerth i'n cwsmeriaid.

Mae'r siart isod yn dangos ein graddfeydd credyd o gymharu â gweddill y sector fel yr adroddwyd yn adroddiad gwydnwch ariannol diweddaraf Ofwat.



Hefyd, mae tua £580m wedi'i ddychwelyd i gwsmeriaid ers 2001 o ganlyniad i'n model "nid-er-cyfranddalwyr." Mae hyn yn cyfateb i ddiffidend blynyddol o 2% y gellir ei gymharu â pherfformiad ariannol y cwmnïau eraill. Defnyddiwyd rhan helaeth yr arian hwn i gyflawni'r canlynol:

- **Helpu'r rhai sy'n ei chael hi'n anodd talu** - yn y cyfnod presennol mae £60m yn cael ei ddefnyddio i ariannu ein tariffau cymdeithasol, lle yn gyfrannol mae gennym y cynllun mwyaf o'r math hwn yn y sector sy'n cynorthwyo dros 130 o filoedd o bobl mewn amgylchiadau agored i niwed. Yn ddiweddar, rydym hefyd wedi lansio Cymuned, y cynllun cyntaf o'i fath gan unrhyw gyfleuster yn y DU i helpu'r

rhai nad ydynt ar fudd-daliadau'r wladwriaeth ond wedi'u dosbarthu â chyllidebau negyddol neu'r tlawd sy'n gweithio.

- **Lliniaru risgiau busnes allweddol megis effaith newid hinsawdd ar ein seilwaith** – pryd rydym ni, fel enghraifft, wedi cyflymu buddsoddiad i wella diogelwch argaeau cronfeydd dŵr, lleihau'r perygl o lifogydd yng nghanol dinasoedd Caerdydd a Chaer, gwella cydnerthedd y cyflenwad dŵr yn Swydd Henffordd.

I grynhoi, ein nod yw adfer ein sefyllfa flaenorol EPA 4* ac rydym yn gwneud pob ymdrech i wneud hyn dros y blynyddoedd nesaf. Cefnogir yr uchelgais hon gan ein cynlluniau i gyflawni ein rhaglen fuddsoddi cyfalaf fwyaf erioed yn AMP8, o dros £3.2bn gyda dros hanner hwn ar ein seilwaith dŵr gwastraff. Efallai y bydd adennill ein safle 4* yn cymryd blwyddyn neu ddwy, ond rydym wedi ymrwymo i wneud hynny ac rydym yn ffyddiog y gallwn wneud hynny.

Peidiwch ag oedi cyn cysylltu â mi os oes angen unrhyw wybodaeth ychwanegol arnoch.

Yn gywir



Peter Perry
Prif Weithredwr



Ein cyf/Our ref: MA/JJ/2328/23

Elin Jones AS
Llywydd

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Llŷr Gruffydd AS
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

1 Medi 2023

Annwyl Elin, Huw a Llŷr,

Rwy'n ysgrifennu atoch mewn perthynas â'r Bil Ynni (y Bil) a gyflwynwyd gerbron Tŷ'r Arglwyddi, Senedd y DU ar 6 Gorffennaf 2022. Fel y gwyddoch, gosodais Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil fel y'i cyflwynwyd ar 29 Mehefin 2023.

Ar 25 Gorffennaf, rhoddais Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol (sLCM) gerbron ar gymalau Pecyn Gwella Amgylcheddol Gwynt Alltraeth (OWEIP) y Bil. Cyflwynwyd y cymalau hynny fel gwelliannau i'r Bil yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 9 Ionawr 2023, gyda gwelliannau pellach yn cael eu cyflwyno i'r Bil gan Lywodraeth y DU ar 7 Mehefin 2023.

Memoranda cydsyniad deddfwriaethol atodol eraill

Rwyf bellach yn ysgrifennu atoch wrth osod ail sLCM i ymdrin â'r gwelliannau eraill a wnaed i'r Bil ers ei gyflwyno. Mae'n ymdrin â'r Bil fel ar ddiwedd Cyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin ac fel y'i cyhoeddwyd ar 11 Gorffennaf 2023. Mae'r gwelliannau sy'n ymwneud â materion sydd o fewn cymhwysedd Gweinidogion Cymru a Senedd Cymru yn ymwneud â Rhannau 1, 2, ac 11.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 202
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu nifer o'r gwelliannau i'r Bil gan eu bod yn rhoi esboniadau defnyddiol a manylion ychwanegol ar sut y bydd y mesurau cyntaf a gyflwynwyd yn y Bil yn gweithredu. Fodd bynnag, fel gyda'r Bil fel y'i cyflwynwyd, mewn nifer o feysydd, nid yw'r gwelliannau a wnaed i'r Bil yn parchu cymhwysedd Senedd Cymru'n ddigonol. Yn benodol, mae Llywodraeth Cymru yn argymhell bod Senedd Cymru'n gwrthod rhoi ei chydysniad i gymalau 9, 73, 106-126, 127 a 259. Yma rydym am ei wneud yn ofyn bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn gofyn i Weinidogion Cymru am eu cydysniad cyn y gall rheoliadau newydd ddod i rym yn hytrach na phroses ymgynghori fel sydd yn nrafft cyfredol y Bil.

Mae Llywodraeth Cymru yn dal i drafod y Bil gyda Llywodraeth y DU, ond hyd yma nid wyf wedi cael cynnig gwelliannau derbyniol i fynd i'r afael â'r pwyntiau a godwyd yn y Memorandwm Cydysniad Deddfwriaethol neu'r sLCM sydd wedi'u gosod hyd yma. Rwy'n ategu barn Llywodraeth Cymru ein bod yn cefnogi bwriad y polisi a nodir yn y Bil ac rwyf hefyd yn cytuno bod angen i lawer o'r rheoliadau a gynigir weithredu'n effeithiol ar lefel y DU gyfan. Rwyf dal o'r farn nad oes rheswm pam na all Llywodraeth y DU weithio gyda ni i reoleiddio ar draws ffiniau mewn ffordd sy'n osgoi gwahaniaethu o ran rheoleiddio trwy broses sy'n gofyn am gydsyniad Gweinidogion Cymru mewn meysydd cymhwysedd datganoledig.

Fel gyda'r LCMs eraill, rwy'n gwerthfawrogi ein bod y tu allan i'r terfyn amser arferol o ddwy wythnos ar gyfer gosod yr LCM atodol hwn. Bu hynny'n rhannol oherwydd y ffordd y mae Llywodraeth y DU wedi ymdrin â'r Bil, ond hefyd oherwydd cymhlethdod y materion sy'n cael eu hystyried.

Dadl ar y cynnig cydysniad deddfwriaethol

Ar hyn o bryd mae Cyfnod Adrodd Tŷ'r Cyffredin a Thrydydd Darlleniad y Bil wedi'i drefnu ar gyfer 5 Medi. Disgwylir i Dŷ'r Arglwyddi ddechrau ystyried y gwelliannau ar 12 Medi.

Rwy'n anhygoel o bryderus na fydd yr amserlen ar gyfer y Bil hwn yn rhoi digon o amser i ddatrys pryderon ar lefel rynglywodraethol, ac na fydd cyfle ystyrlon gan Senedd Cymru i ystyried ei barn am gydsynio. Rwyf wedi gofyn i Weinidogion y DU gymryd camau ar unwaith i ohirio Cyfnodau terfynol Tŷ'r Cyffredin er mwyn cael mwy o amser i drafod, ac er mwyn i Senedd Cymru gael ystyried y Bil hwn ar adeg ystyrlon.

Yn ôl yr amserlen bresennol, rwyf yn y sefyllfa anffodus o orfod gofyn i Senedd Cymru drafod Cynnig Cydysniad Deddfwriaethol y Bil hwn pan ddaw'r cyfle cyntaf, sef 12 Medi 2023. Rwy'n gwerthfawrogi y bydd hyn yn golygu na chaiff Pwyllgorau perthnasol Senedd Cymru yr amser i graffu ar yr sLCMs gafodd eu gosod yn ystod y toriad, ac mae'n debygol na fyddant wedi cael amser chwaith i adrodd ar y Memorandwm Cydysniad Deddfwriaethol a osodwyd ar 29 Mehefin 2023. Ond bydd cynnal y ddadl ar y dyddiad hwn yn gyfle i Senedd Cymru gyfleu ei barn yn glir wrth Lywodraeth y DU a Senedd y DU yn fuan.

O bryder mwy fyth yw'r posibilrwydd y bydd y Bil hwn yn cael ei wthio drwy Senedd y DU er na fydd wedi cael cydysniad Senedd Cymru. Y confensiwn cyfansoddiadol yw na fydd Senedd y DU fel arfer yn deddfu ar faterion datganoledig heb gydsyniad Senedd Cymru. Nid oes rheswm rhesymol o gwbl i awgrymu nad yw'r ddeddfwriaeth hon yn 'normal'. Felly, rwyf wedi gofyn am sicrwydd diamwys, os na fydd Senedd Cymru'n rhoi ei chydysniad i'r Bil hwn, y bydd Llywodraeth y DU yn ymrwmo i barchu Confensiwn Sewel fel y dywedodd y byddai, a pheidio â deddfu mewn perthynas â Chymru.

Rheol Sefydlog 29 a goblygiadau o ran adrodd

Rwy'n ymwybodol bod y Pwyllgor Busnes eisoes wedi pennu 15 Medi fel y dyddiad cau ar gyfer adrodd ar yr LCM gwreiddiol. Os bydd naill ai'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad neu'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith mewn sefyllfa i gyhoeddi adroddiad cyn y ddadl ar 12 Medi, byddaf yn ymateb yn unol â hynny yn naddl Senedd Cymru ac yn ysgrifenedig yn ôl y gofyn.

Rwy'n cydnabod, fodd bynnag, yr anhawster sylweddol y mae hyn yn debygol o'i achosi a'r realiti y gallai hyn fod yn anymarferol. Felly, byddaf hefyd yn cymryd camau i gyflwyno cynnig i atal Rheol Sefydlog 29.8 er mwyn gallu cynnal y ddadl ar 12 Medi, a chan atal hefyd Reolau Sefydlog 11.16 a 12.20(i).

Rwy'n parchu ac yn gwerthfawrogi rôl Pwyllgorau Senedd Cymru o fewn y broses cydsyniad deddfwriaethol, ac yn gresynu'r sefyllfa hon yn fawr. Fodd bynnag, fel y nodwyd eisoes, credaf oherwydd trywydd y Bil hwn, ei bod yn hanfodol bod Senedd Cymru'n cael mynegi ei barn ar fyrder.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, Mick Antoniw AS a'r Gweinidog Materion Gwledig a'r Gogledd, a'r Trefnydd, Lesley Griffiths AS.

Yn gywir,



Julie James AS/MS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change



Ein cyf/Our ref: JJ/PO/294/2023

Llŷr Gruffydd AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

30 Awst 2023

Annwyl Llŷr,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 8 Gorffennaf ynglŷn â'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (LCM) ar gyfer Bil Ynni'r DU, lle y gwnaethoch ofyn am wybodaeth am y ffordd y bydd darpariaethau'r Bil mewn perthynas â Chymru yn effeithio ar allu Llywodraeth Cymru i ddatblygu polisi ar ynni / newid hinsawdd yn y dyfodol sy'n diwallu anghenion Cymru.

Fel y nodais yn yr LCM, mae'r Bil yn seiliedig ar dri philer: Sicrhau buddsoddi mewn technolegau gwyrdd; diwygio system ynni'r DU a diogelu cwsmeriaid; a chynnal diogelwch, sicrwydd a chadernid systemau ynni ledled y DU. Mae gan y Bil fel y'i cyflwynwyd 13 rhan ac 19 atodlen, ond mae bellach wedi cael ei ddiwygio i gynnwys 15 rhan a 22 atodlen. Yn yr ymateb hwn byddaf yn trafod y bil fel y'i cyflwynwyd a'r rhan newydd a gyflwynwyd sy'n ymdrin â darpariaethau ynni gwynt ar y môr. Mae hyn wedyn yn ymdrin â'r LCM a osodwyd ar 29 Mehefin 2023 a'r LCM atodol a osodwyd ar 25 Gorffennaf 2023.

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi bwriad polisi cyffredinol y Bil Ynni. Mae'r Bil yn darparu'r sail reoleiddiol sydd ei hangen ar gyfer nifer o dechnolegau allweddol sy'n bwysig ar gyfer sicrhau ein cyflenwad ynni ac ar gyfer sicrhau sero net. Yn y rhannau o'r Bil sy'n ymdrin â materion datganoledig, ar y cyfan mae'r Bil yn cyd-fynd â'n safbwynt ar bolisiau strategol. Fodd bynnag, mae rhai gwahaniaethau allweddol rhwng y ffordd mae'r llywodraethau'n gweithredu na ellid eu harfer pe bai'r Bil yn parhau fel y'i drafftwyd ar hyn o bryd.

Mae Rhan 1 o'r bil yn sefydlu cyfundrefn rheoleiddio economaidd a thrwyddedu ar gyfer cludo a storio CO₂, ac yn nodi mae Ofgem (y Swyddfa Marchnadoedd Nwy a Thrydan) yw'r rheoleidiwr economaidd. Mae Rhan 2 yn galluogi'r Llywodraeth i weithredu a gweinyddu modelau busnes ar gyfer dal a storio carbon. Rwy'n cytuno ei bod yn debygol y bydd Dal, Defnyddio a Storio Carbon (CCUS) yn chwarae rôl sylweddol, yn benodol wrth

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

ddatgarboneiddio diwydiant. Mae hyn yn unol â chasgliadau astudiaethau rhyngwladol a gynhaliwyd gan sefydliadau gan gynnwys y Pwyllgor Newid Hinsawdd (CCC), y Panel Rhynglywodraethol ar y Newid yn yr Hinsawdd (IPCC) a'r Asiantaeth Ynni Ryngwladol (IEA).

Fodd bynnag, mae'r Bil fel y'i drafftwyd yn rhoi pwerau helaeth i'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliadau, gyda'r angen dim ond i ymgynghori â Gweinidogion Cymru os bydd y rheoliadau'n cynnwys darpariaethau a fyddai o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Gan fod hwn yn gymhwysedd datganoledig, dylai'r gofyniad i ymgynghori gael ei newid i ofyniad i geisio cydsyniad Gweinidogion Cymru. Er bod y ddwy lywodraeth yn gytuno ar yr angen am sail reoleiddio ar gyfer CCUS, barn Llywodraeth Cymru yw bod rhaid i allyriadau gael eu lleihau yn y tarddle gyntaf, gyda CCUS yn cael ei ddefnyddio pan nad yw opsiynau eraill ar gyfer datgarboneiddio'n bosibl. Rwy'n awyddus i sicrhau bod lefel y CCUS yng Nghymru mor isel ag y bo modd, ac nad yw CCUS yn cael ei hystyried yn gyfle diwydiannol newydd a allai beri'r risg o rwymo'r DU i barhau i ddefnyddio tanwyddau ffosil pan fydd modd osgoi hynny.

Yn ogystal, wrth i'r rheoliadau manwl yn cael eu datblygu, bydd angen i'r dull ar gyfer CCUS reoli'r cyd-bwysedd rhwng diogelu cynefinoedd morol a datblygu prosiectau CCUS. Gan nad yw'r Bil fel y'i drafftwyd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion y DU geisio ein cytundeb, nid yw'n rhoi i Weinidogion Cymru na'r Senedd y gallu i lunio polisïau a gweithredu'r gwiriadau a'r mesurau sicrwydd yr hoffem eu gweithredu.

Mae gennyf bryderon tebyg mewn perthynas â'r darpariaethau newydd a gyflwynwyd ar gyfer cynhyrchu trydan gwynt ar y môr. Ymdrinnir â'm safbwynt cyffredinol ar y cymalau hyn yn yr LCM atodol a osodir ar 25 Gorffennaf 2023. O safbwynt polisi, rwy'n cytuno bod angen inni symleiddio a chyflymu'r broses o roi cydsyniad ar gyfer datblygiadau ynni gwynt ar y môr, ac rwyf hefyd wedi ymrwmo i weithio mewn partneriaeth i sicrhau tegwch ledled y DU. Rwyf hefyd yn cytuno bod y pwerau newydd sy'n galluogi mesurau digollediad strategol yn ddoeth. Rydym o blaid yr ymdrech i alluogi rhagor o ddatblygiadau ynni gwynt ar y môr, i ymateb i'r angen i newid i system ynni sero net, ac mae ein gwaith ar dargedau ar gyfer ynni adnewyddadwy yn dangos y rôl y disgwylir i ynni ar y môr ei chwarae yng Nghymru.

Fodd bynnag, rydym wedi amlinellu ein safbwynt bod gan y Senedd gymhwysedd deddfwriaethol i wneud Bil Seneddol ar gyfer cronfa ar gyfer unrhyw brosiectau seilwaith o dan 350MW yn ardal glannau Cymru. Ni fydd hyn yn bosibl ar gyfer ynni gwynt ar y môr os yw'r Bil Ynni yn dod i rym fel y'i drafftwyd ar hyn o bryd. Yn ogystal, er y bydd gennym y pŵer i ddiwygio'r rheoliadau asesu amgylcheddol lle mae gennym gymhwysedd deddfwriaethol, mae Llywodraeth y DU yn bwriadu i'w rheoliadau estyn ar draws y ddwy gyfundrefn gydsynio (lle mae penderfyniadau Gweinidogion Cymru yn cael eu cyfyngu i ddatblygiadau 350MW ac is) yn ogystal â Thrwyddedu Morol (lle nad yw penderfyniadau Gweinidogion Cymru yn cael eu cyfyngu i 350MW ac is pan fydd datblygiadau'n hollol o fewn ardaloedd y glannau). Er ein bod yn derbyn bod sail resymegol i gefnogi polisi o'r fath i sicrhau nad ydym yn creu prosesau asesu gwahanol ar gyfer yr un datblygiad, byddai hyn yn cyflwyno trothwy o 350MW wrth gynnal asesiadau ar gyfer trwyddedau morol nad oedd yn bodoli'n flaenorol. Rydym wedi dweud ein bod am alinio prosesau cyn belled ag y bo modd, ond hefyd am weld y setliad datganoli yn gael ei barchu cyn belled â bod sicrhau bod yr asesiadau'n hynny'n cyd-fynd o fewn ein cymhwysedd gweithredol.

Er fy mod yn cefnogi'r bwriad polisi a amlinellir yn y Bil Ynni, mae gan bob gwlad yn y DU ei set ei hun o bolisïau amgylcheddol a'i chynlluniau ar gyfer lleihau allyriadau, sy'n cyflawni yn erbyn y set benodol o heriau a blaenoriaethau sy'n berthnasol inni. Mae gallu Gweinidogion Cymru i ddefnyddio'r holl bwerau priodol o fewn ein cymhwysedd ar yr adeg gywir i lunio llwybr ar gyfer cyrraedd sero net yn cael ei gyfyngu gan y Bil fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd.

Yn olaf, roeddwn am roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am statws presennol y Bil Ynni. Rwy'n bwriadu gosod LCM atodol cyn gynted ag y bo modd i fynd i'r afael â'r newidiadau a wnaed i'r Bil ers iddo gael ei gyhoeddi hyd at ddiwedd Cyfnod Pwyllgor y Bil yn Nhŷ'r Cyffredin ar ddiwedd Mehefin 2023.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i drafod y gwelliannau i'r Bil sydd eu hangen yn unol â'r safbwyntiau rwyf eisoes wedi'u hamlinellu yn yr LCMau a osodais yn y Senedd. Rwyf wedi'i gwneud yn glir i Lywodraeth y DU nad oes rheswm pam nad ydym yn gallu gweithio gyda'n gilydd i sicrhau rheoleiddio trawsffiniol mewn ffordd sy'n osgoi prosesau rheoleiddio gwahanol, drwy broses lle mae angen cydsyniad Gweinidogion Cymru ar gyfer meysydd lle mae cymhwysedd wedi'i ddatganoli.

Rwyf hefyd wedi ailadrodd fy mhryderon difrifol y bydd y Bil hwn yn cael ei wthio drwy Senedd y DU er ei bod yn bosibl y bydd y Senedd yn gwrthod rhoi cydsyniad. Gan fod cyfnod adrodd wedi'i gynllunio ar gyfer 5 Medi 2023, mae gennyf bryderon mawr iawn na fydd amserlen y bil yn gadael digon o amser i ddatrys problemau ar lefel rhynglywodraethol, ac ni fydd unrhyw gyfle ystyrlon i'r Senedd ystyried ei safbwynt ynghylch cyd-syniad. Y confensiwn cyfansoddiadol yw na fydd Senedd y DU fel ar gyfer yn deddfu mewn perthynas â materion datganoledig heb gydsyniad Senedd Cymru. Nid oes unrhyw dystiolaeth o gwbl y gellir ei chyflwyno bod y ddeddfwriaeth hon yn "anarferol". Rwyf wedi nodi y byddai deddfu heb gydsyniad mewn amgylchiadau o'r fath yn anghyfansoddiadol, ac yn bwydo dadleuon y rhai sydd am danseilio ein Teyrnas Unedig.

Yn gywir,



Julie James AS/MS

Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

Julie James AS

Y Gweinidog Newid Hinsawdd

18 Gorffennaf 2023

Annwyl Julie

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Ynni

Fel y gwyddoch, mae Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Ynni ('y Memorandwm') wedi'i gyfeirio at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith ('y Pwyllgor') i'w drafod. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad yw 15 Medi 2023.

Yn eich llythyr at y Llywydd, dyddiedig 29 Mehefin 2023, yn nodi'r rhesymau dros yr oedi wrth osod y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, rydych yn nodi bod "hyd a chymhlethdod y Bil wedi arwain at yr angen am ddadansoddiadau hir a manwl o'r polisi a'r safbwynt cyfansoddiadol". Er mwyn cynorthwyo'r Pwyllgor i drafod y Memorandwm, byddai'n ddefnyddiol pe gallech rannu unrhyw ddadansoddiad â ni ynghylch a fydd darpariaethau'r Bil mewn perthynas â Chymru yn effeithio ar allu Llywodraeth Cymru i ddatblygu polisi ynni/newid hinsawdd yn y dyfodol sy'n diwallu anghenion Cymru.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb cyn gynted â phosibl, ac erbyn **30 Awst 2023** fan bellaf.

Yn gywir,



Llyr Gruffydd AS,

Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. | We welcome correspondence in Welsh or English.

Andrew Bowie MP
Parliamentary Under-Secretary of State for Energy
Security and Net Zero

12 July 2023

Dear Andrew

Energy Bill

You will be aware that the Welsh Government has now begun the legislative consent process in the Senedd in relation to relevant provisions in the Energy Bill (the Bill). On 29 June 2023, the Minister for Climate Change, Julie James MS, laid before the Senedd a Legislative Consent Memorandum (the Memorandum) on the Bill. You will likely be aware that the Welsh Government is currently recommending to the Senedd that it should withhold consent to the relevant provisions in the Bill at this time.

In the Memorandum laid before the Senedd, the Minister for Climate Change states that the Welsh Government was not involved in the development of the Bill before its introduction, and "the full legal text [of the Bill] was not available for review until hours before its introduction to the House of Lords". The Minister for Climate Change also states that the Welsh Ministers have written to the UK Government to raise concerns that the Bill as drafted does not respect the legislative competence of the Senedd nor the devolved responsibilities of the Welsh Ministers.

The Minister for Climate Change was invited to attend my Committee's meeting on 10 July, when we were able to discuss with her the Welsh Government's actions to date as regards the Bill. In particular, we discussed the circumstances which had contributed to the fact that the Memorandum has been laid before the Senedd almost one year after the Bill was introduced to the UK Parliament. We would normally expect a legislative consent memorandum to be laid before the Senedd within two weeks of a Bill with relevant provisions being introduced to the UK Parliament. Further to the statements made in the Memorandum, the Minister made it clear that the delay was partly due to the lack of dialogue and cooperation between both Governments. She told us:

- “We would have very much wanted for the Welsh Government to have been involved in the development of the Bill months before the Bill was published. We would have had detailed discussions with UK Government Ministers on matters within our competence and so on. Not a single scrap of that happened at all. Nothing, absolutely not.” [Record of Proceedings, paragraph 6]
- “I’m quite annoyed by the situation the UK Government has put in where we’re struggling to keep up with the changes in a Bill that are rapid and don’t involve us at the right level at all.” [RoP, paragraph 7]
- “...there’s just nothing good to say about the way the UK Government has treated the devolution settlement. The Bill has been drafted without any nod to devolution whatsoever. (...) from a political point of view, I would say that it’s news to the energy team [in the UK Government] that there is such a thing as a devolution settlement. It’s been a hard-fought battle to get them to even understand what we’re trying to say.” [RoP, paragraph 14]
- “I have, a number of times, not just in this instance, been summoned to speak to a Minister of the UK Government at 17:30 with no idea of what they want to talk to me about, only to be told that tomorrow morning, they’re going to publish X, so that they can say they’ve consulted us. Well, I’m sorry, I don’t think that’s sufficient consultation at all.” [RoP, paragraph 19]
- “I’ve made a number of representations to the Secretary of State for BEIS, as it was then, and the Secretary of State and Ministers within the new Department for Energy Security and Net Zero. In March this year, following the UK Government amendments, with the offshore wind environment improvement package, I set out my concerns to the new Secretary of State on the clauses and on the initial considerations of the Bill. I’ve requested a meeting to discuss the concerns, but no offer to meet has been forthcoming. The first and only meeting on this Bill I have had with a UK Government Minister was with Minister Bowie in May 2023, and I have to say, in that meeting, Minister Bowie showed no appreciation that any kind of devolution settlement existed. There’s no getting away from that. It was a very short meeting, and their view was that it just doesn’t engage the devolution—. Well, they just didn’t have any appreciation of it at all.” [RoP, paragraph 29. See also paragraph 20]
- “We do normally have much better engagement. (...) but I think that what we’re looking at here is somebody who just did not realise that there was any devolution issue in it until the last minute.” [RoP, paragraph 21]



The statements and comments made by the Minister for Climate Change are concerning. We would welcome and value your response to what we have heard from the Minister for Climate Change, in particular details of the engagement – at Ministerial and official level – between your respective departments, and how you have sought to address the concerns of the Welsh Government.

I would welcome a response by 1 September 2023, so that my Committee can fully consider the evidence before reporting to the Senedd ahead of the debate which will take place on a consent motion for the Bill.

I am copying this letter to the Rt Hon Grant Shapps MP, Secretary of State for Energy Security and Net Zero; the Rt Hon Michael Gove MP, Secretary of State for Levelling Up, Housing and Communities and Minister for Intergovernmental Relations; and the Rt Hon David TC Davies MP, Secretary of State for Wales.

I am also copying the letter to the Senedd's Climate Change, Environment, and Infrastructure Committee.

Yours sincerely,

A handwritten signature in black ink that reads "Huw Irranca-Davies". The signature is written in a cursive style and is underlined with a single horizontal stroke.

Huw Irranca-Davies
Chair

Item 4.6

Y Pwyllgor Newid Hinsawdd,
yr Amgylchedd a Seilwaith

Climate Change, Environment,
and Infrastructure Committee

Senedd Cymru

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN

SeneddHinsawdd@senedd.cymru

senedd.cymru/SeneddHinsawdd

0300 200 6565

Welsh Parliament

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN

SeneddClimate@senedd.wales

senedd.wales/SeneddClimate

0300 200 6565

Julie James AS

Y Gweinidog Newid Hinsawdd

26 Gorffennaf 2023

Annwyl Julie,

Datgarboneiddio'r sector tai preifat – diweddariad ar y cynnydd

Wrth ymateb i adroddiad y Pwyllgor, sef [Datgarboneiddio'r sector tai preifat](#), gwnaethoch ymrwymo i roi diweddariadau i ni bob chwe mis ar y cynnydd o ran bwrw ymlaen â nifer o'n hargymhellion.

Wrth edrych ymlaen at y diweddariad cyntaf, a ddisgwylir ar 27 Awst 2023, cytunodd y Pwyllgor y dylwn ysgrifennu i ofyn i chi hefyd ateb y cwestiynau penodol a nodir yn y llythyr hwn.

Map ffordd datgarboneiddio tai preswyl

Mae **argymhellion 3 a 4** yn ein hadroddiad yn ymwneud â datblygu'r 'map ffordd ar gyfer datgarboneiddio tai preswyl Cymru'.

Wrth ymateb i'r argymhellion hyn, gwnaethoch ddweud y canlynol wrth y Pwyllgor:

"Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r Grŵp Gweithredu ar gyfer Datgarboneiddio i lunio a gweithredu trywydd er mwyn datgarboneiddio tai preswyl yng Nghymru. Mae'r Grŵp Gweithredu ar gyfer Datgarboneiddio ar y cam cyntaf o nodi'r themâu a'r camau gweithredu perthnasol ar lefel strategol. Yna, bydd grwpiau gorchwyl a gorffen yn helpu i ddatblygu trywydd a fydd yn rhoi cyfeiriad ac yn ysgogi cynnydd tuag at ddatgarboneiddio cartrefi presennol Cymru.

Bydd y trywydd yn pennu'r cyfeiriad y mae angen anelu ato er mwyn datgarboneiddio cartrefi preswyl yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir."

Rydym yn deall nad yw'r Grŵp Gweithredu Datgarboneiddio wedi gallu symud ymlaen â'r gwaith ar y map ffordd mor gyflym ag y byddai wedi hoffi. Ymhellach, rydym yn deall bod Llywodraeth Cymru, ar



y lefel uchaf, wedi methu ymgysylltu'n effeithiol â gwaith y Grŵp Gweithredu Datgarboneiddio, er enghraifft, drwy beidio ag ymateb i ohebiaeth. Mae hyn yn peri pryder mawr.

1. Byddem yn croesawu esboniad o'r uchod ac yn gofyn am sicrwydd y byddwch chi ac uwchswyddogion yn eich Adran yn ymrwymo i wella ymgysylltiad â'r Grŵp Gweithredu Datgarboneiddio i hwyluso ei waith.
2. Fel y cytunwyd eisoes, hoffem i chi wneud y canlynol:
 - darparu diweddariad ar y cynnydd tuag at ddatblygu'r map ffordd;
 - egluro'r amserlenni rydych yn gweithio tuag atynt, gan gynnwys a gytunwyd ar y rhain â'r Grŵp Gweithredu Datgarboneiddio.

Rydym yn deall, yn wahanol i grwpiau eraill a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru i fwrw ymlaen â'r gwaith ar ddatgarboneiddio, er enghraifft, y Grŵp Strategaeth Gwres, nad yw'r Grŵp Gweithredu Datgarboneiddio yn cael ei gyllido.

3. A allwch amlinellu'r sail resymegol dros y dulliau gwahanol o gyllido grwpiau o'r fath?

Rydym yn gofyn am sicrwydd y bydd digon o gyllid ar gael i'r Grŵp Gweithredu Datgarboneiddio i sicrhau y gall gyflawni ei rôl yn effeithlon ac yn effeithiol.

Rhaglen Cartrefi Clyd newydd

Gwyddom, ym mis Mehefin 2023, y gwnaerthoch gyhoeddi [datganiad polisi ar y Rhaglen Cartrefi Clyd newydd](#). Yn ôl y datganiad, bwriad Llywodraeth Cymru yw "parhau i roi'r 'Adeiladwaith yn Gyntaf', gan gyflwyno mesurau i wneud yr aelwydydd sydd â'r incwm isaf ac sydd leiaf effeithlon o ran gwres yn fwy ynni effeithlon". Mae'r datganiad yn dweud y rhennir y gwaith hwnnw yn ddwy ran:

Mae Rhan 1 yn cynnwys bwrw ymlaen yn gynt â'r broses i gaffael gwasanaeth newydd sy'n seiliedig ar y galw.

Mae Rhan 2 yn cynnwys datblygu ffordd integredig ar draws pob math o ddeiliadaeth a lefel incwm i sbarduno datgarboneiddio.

4. Rydych wedi dweud y bydd y gwasanaeth newydd sy'n seiliedig ar y galw ar waith erbyn y gaeaf. A allech roi amseriadau manylach?

Mae'r datganiad yn esbonio, ar gyfer y gwasanaeth newydd sy'n seiliedig ar y galw, "er mwyn bod yn gymwys am gymorth...gyda mesurau arbed ynni...y bydd yn rhaid...bodloni trothwy incwm isel, yn hytrach na budd-daliadau sy'n dibynnu ar brawf modd".

5. Pryd a sut y byddwch yn penderfynu ar y 'trothwy incwm isel'?

Roedd y Rhaglen wreiddiol yn cynnwys cynllun sy'n seiliedig ar y galw (Nyth) a chynllun sy'n seiliedig ar ardal (Arbed).

6. A allwch egluro a fydd y Rhaglen newydd yn darparu ar gyfer dull sy'n seiliedig ar ardal o wella effeithlonrwydd ynni cartref a sut y bydd yn gwneud hynny? Os na fydd, pam lai?

Mae'r datganiad yn canolbwyntio ar Ran 1 a'r gwasanaeth newydd sy'n seiliedig ar y galw, gan ddarparu gwybodaeth gyfyngedig am Ran 2.

7. Pryd fyddwch mewn sefyllfa i ddarparu esboniad manylach o Ran 2 o ddull Llywodraeth Cymru o wella effeithlonrwydd ynni cartref?

Model stoc adeiladau Cymru gyfan

Mae **argymhelliad 12** yn ein hadroddiad yn ymwneud â defnyddio model stoc adeiladau Cymru gyfan Sefydliad Ynni UCL fel ffordd o nodi aelwydydd sy'n gymwys i gael cyllid ECO ac ar gyfer unrhyw gyllid grant yn y dyfodol i gefnogi ôl-osod effeithlonrwydd ynni.

Wrth ymateb i'r argymhelliad hwn, gwnaethoch ddweud y canlynol wrth y Pwyllgor:

"Mae Llywodraeth Cymru yn cynnal trafodaethau â TrustMark ynghylch model stoc Cymru gyfan a fydd yn golygu y gellir canfod aelwydydd a all ddefnyddio sianeli ariannu eraill fel arian ECO neu drefniadau ariannu yn y dyfodol sy'n targedu cymorth tuag at waith ôl-osod effeithlonrwydd ynni."

8. A allwch roi diweddariad ar eich trafodaethau â TrustMark, gan gynnwys unrhyw ganlyniad? A allwch egluro pryd a sut y bydd model stoc Cymru gyfan yn cael ei ddefnyddio i nodi aelwydydd?

Hwb Perfformiad Tai Carbon Sero Net

Mae **argymhelliad 24** yn ymwneud â Hwb Perfformiad Tai Carbon Sero Net ('yr Hwb'), sydd wedi'i lansio ers hynny. Gwnaethoch ddweud wrth y Pwyllgor o'r blaen, "wedi'r flwyddyn gyntaf, rhagwelir y bydd y gwasanaethau sy'n cael eu cynnig gan yr Hyb yn cael eu hehangu i helpu landlordiaid preifat a pherchnogion tai". Fodd bynnag, mewn ymateb i'n hargymhelliad, gwnaethoch ddweud y canlynol wrthym:

"Cytunwyd ar ddyraniad cyllidebol ar gyfer tair blynedd gyntaf yr Hwb Perfformiad Carbon Sero Net ac, felly, os caiff gofynion ychwanegol eu cyflwyno ar gyfer yr Hwb, bydd angen arian ychwanegol i dalu am gost y gofynion hynny. Bydd fy swyddogion yn gweithio gyda grŵp llywio'r Hwb Perfformiad Carbon Sero Net a'r partner cyflawni i sicrhau bod yr Hwb a'i wefan gysylltiedig ar gael a'u bod yn



darparu gwybodaeth a chyngor i bob deiliadaeth cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl."

9. A allwch egluro pryd y bydd y gwasanaethau a gynigir gan yr Hwb yn cael eu hehangu i gefnogi landlordiaid preifat a pherchnogion tai a'r cyllid ychwanegol sydd ei angen i dalu cost hyn?

Datrysiadau ariannol ar gyfer y rhai sy'n 'gallu talu'

Mae **argymhelliad 28** yn ymwneud a datrysiadau ariannol ar gyfer y rhai sy'n 'gallu talu', gan gynnwys Cyllid Cysylltiedig ag Eiddo a benthyciadau dim llog/llog isel.

10. A allwch roi diweddariad ar y cynnydd tuag at ddatblygu datrysiadau ariannol ar gyfer y rhai sy'n 'gallu talu', gan gynnwys Cyllid Cysylltiedig ag Eiddo, ers eich ymateb i'n hadroddiad ym mis Ebrill 2023.

Strategaeth Gwres Cymru

Yn olaf, ar fater ar wahân, ond cysylltiedig, mae Cymru Sero Net Cyllideb Garbon 2 (2021-25) yn cynnwys ymrwymiad i "[g]yhoeddi strategaeth gwres i Gymru yn 2023".

11. A allwch roi diweddariad ar y cynnydd a wnaed tuag at ddatblygu strategaeth gwres? A allwch gadarnhau y bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi'r strategaeth cyn diwedd 2023?

Edrychaf ymlaen at gael ymateb gennych cyn gynted â phosibl ac erbyn **27 Awst** fan bellaf.

Yn gywir,



Llyr Gruffydd AS,
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.

Julie James AS/MS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: JJ/PO/292/2023

Llŷr Gruffydd MS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd yr Amgylchedd a'r Seilwaith
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

31 Awst 2023

Annwyl Llŷr,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 26 Gorffennaf yn gofyn am y diweddariad chwe mis cyntaf ar y cynnydd tuag at fwrw ymlaen â nifer o'r argymhellion a wnaed yn adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a'r Seilwaith ar Ddatgarboneiddio'r Sector Tai Preifat. Mae fy swyddogion yn gwneud cynnydd o ran bwrw ymlaen â nifer o'r argymhellion a wnaed yn yr adroddiad.

Mae diweddariad manwl ar y cwestiynau penodol sydd wedi'u cynnwys yn eich llythyr wedi'i atodi.

Yn gywir,

Julie James AS/MS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 216
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Atodiad 1

Map llwybr i ddatgarboneiddio tai preswyl

1. Byddem yn croesawu esboniad o'r uchod ac yn gofyn am sicrwydd y byddwch chi ac uwchswyddogion yn eich Adran yn ymrwmo i wella ymgysylltiad â'r Grŵp Gweithredu Datgarboneiddio i hwyluso ei waith.

Mae'r Grŵp Gweithredu Datgarboneiddio (DIG) yn cael ei gefnogi a'i hwyluso gan fy swyddogion ac mae'n cyfarfod bob mis i fwrw ymlaen ag ystod o feysydd. Trwy'r cyfarfodydd hyn mae'r grŵp wedi pennu rhestr o feysydd ffocws sy'n flaenoriaeth ar gyfer y map llwybr y credant fod angen ei drafod a'i gytuno'n ehangach gyda rhanddeiliaid.

Rwyf wedi derbyn gohebiaeth gan Gadeirydd DIG yn amlinellu ei bryder ynghylch cyflymder y cynnydd ac rwyf i fod i gwrdd ag ef yn fuan i drafod hyn a ffyrdd o weithio i'r DIG yn y dyfodol.

Cynhaliwyd cyfarfodydd hefyd yn ddiweddar (14eg Awst) gyda chadeirydd DIG ac uwch swyddogion i drafod cynnydd. Rydym wedi ymrwmo i sicrhau bod gwaith DIG yn cael ei ddatblygu a'i gefnogi. Fodd bynnag, rwy'n ymwybodol nad yw cylch gwaith y DIG wedi ei adolygu na'i adnewyddu'n ffurfiol ers ei sefydlu yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad "Cartrefi Gwell" yn 2019.

Yng nghyfarfodydd diweddar y DIG, mae'r aelodau wedi mynd ati i ystyried ffocws cylch gwaith a phwrpas y grŵp a pha newidiadau sydd eu hangen nawr i sicrhau y gall y grŵp ddod o hyd i'r ffordd orau o gyflawni. Rwy'n edrych ymlaen at drafod hyn gyda'r cadeirydd a chlywed barn y grŵp cyn ystyried a mireinio cylch gwaith y grŵp.

2. Fel y cytunwyd eisoes, hoffem i chi wneud y canlynol:

- darparu diweddariad ar y cynnydd tuag at ddatblygu'r map ffordd;
- egluro'r amserlenni rydych yn gweithio tuag atynt, gan gynnwys a gytunwyd ar y rhain â'r Grŵp Gweithredu Datgarboneiddio?

Mae'r DIG wedi ystyried datblygu'r map llwybr ac yn ystod sawl cyfarfod misol ers mis Ionawr 2023 maent wedi penderfynu ar y meysydd y credant sydd angen eu hystyried a'u datblygu gyda rhanddeiliaid ehangach. Mae'r rhain yn cynnwys canolbwyntio ar y pynciau canlynol:

- Cyllid;
- Sgiliau;
- Data;
- Llwybrau;
- Cyfathrebu a Phrofiad y Defnyddiwr.

Maent hefyd wedi bod yn gweithio i nodi'r amrywiaeth o randdeiliaid y mae angen eu cydosod i drafod a datblygu'r pynciau hyn ymhellach.

Mae swyddogion wedi tynnu sylw'r DIG at yr angen i gydgyssylltu gwaith y map llwybr datgarboneiddio preswyl â datblygiadau strategol allweddol eraill. O bwysigrwydd arbennig yw'r cyhoeddiad a'r ymgynghoriad ar y Strategaeth Gwres. Bydd cyfres o gynlluniau gweithredu yn cael eu datblygu fel rhan o'r gwaith hwn a phwysleisiwyd y gorgyffwrdd

rhwng y cynllun gweithredu ar gyfer elfen ddomestig y Strategaeth Gwres a'r gwaith o lunio'r map llwybr.

Oherwydd hyn, ac i roi cymorth pellach i waith DIG, mae swyddogion wedi cynnig gwaith alinio ar gynllun gweithredu'r elfen ddomestig a'r map llwybr. Bydd hyn yn sicrhau nad oes unrhyw ddyblygu na diffyg alinio rhwng y ffrydiau gwaith hyn, tra hefyd yn dod â chefnogaeth i'r broses gan ymgynghorwyr y cysylltwyd â hwy eisoes i gefnogi cynhyrchu'r cynllun gweithredu.

Mae cynllunio'n digwydd, cyn sesiwn gychwynnol gyda rhanddeiliaid (y bwriedir ei gynnal ar ddechrau mis Hydref). Cyn hyn bwriedir gwneud gwaith pellach i gael dealltwriaeth gyffredin o'r meysydd i ganolbwyntio arnynt ar gyfer y cynllun gweithredu, a'r meysydd y mae angen eu datblygu ymhellach fel elfennau ar wahân o fewn y map llwybr.

O ran ariannu'r DIG, sefydlwyd y grŵp hwn yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad cartrefi gwell yn ôl yn 2019. Ar y pryd fe'i sefydlwyd fel grŵp cynghori gwirfoddol gan ystyried gweithredu argymhellion a gynhwysir yn yr adroddiad hwnnw. Mae'r cylch gwaith bellach yn datblygu ac yn esblygu gydag amser a meysydd gwaith newydd yn ymddangos – megis datblygu'r map llwybr.

Mae p'un ai yw bwrdd neu grŵp cynghori yn cael ei ariannu ai peidio yn cael ei ddylanwadu gan ei bwrpas, ei gyfansoddiad a'i sail. Er enghraifft, mae rhan fwyaf y byrddau lle telir aelodau yn cael eu recriwtio drwy broses benodi gyhoeddus.

Nid yw rhai o'r enghreifftiau yr edrychodd DIG arnynt wrth gymharu eu gwaith yn fyrddau. Datblygwyd y Strategaeth Gwres, er enghraifft, gyda mewnbwn gan ystod o randdeiliaid na chawsant eu talu am eu hamser. Cynhaliodd swyddogion ymarfer caffael agored i gomisiynu ymgynghorwyr i gynhyrchu pecynnau gwaith, cefnogi cyfranogiad ein rhanddeiliaid a drafftio'r strategaeth wres gyffredinol er mwyn eu hadolygu a'u cymeradwyo. Mae'r dull hwn lle mae adnoddau ac arbenigedd yn cael eu caffael i helpu i ddatblygu strategaethau a dulliau polisi yn gymharol gyffredin ond nid yw'n cynnwys bwrdd.

Wrth ystyried datblygu'r map llwybr, roeddwn o'r farn y byddai DIG, fel grŵp cynghori sefydledig sydd eisoes yn cefnogi datgarboneiddio tai, mewn sefyllfa dda i ddatblygu'r gwaith hwn.

3. A allwch amlinellu'r sail resymegol dros y dulliau gwahanol o gyllido grwpiau o'r fath?

Rydym yn gofyn am sicrwydd y bydd digon o gyllid ar gael i'r Grŵp Gweithredu Datgarboneiddio i sicrhau y gall gyflawni ei rôl yn effeithlon ac yn effeithiol.

Rwyf wedi amlinellu uchod fod dulliau gwahanol o ariannu grwpiau a gwahaniaeth rhwng defnyddio grŵp i gefnogi gwaith datblygu, yn hytrach na chomisiynu sefydliad allanol i ddarparu cymorth.

Bydd DIG nawr yn gweithio gyda'r sefydliad sy'n cefnogi datblygiad cynllun gweithredu'r Strategaeth Wres. Bydd yr adnodd hwn nawr yn cael ei alinio i gefnogi elfen gynhenid o'r gwaith map llwybr. Bydd unrhyw ystyriaeth bellach o adnoddau yn cael ei wneud yn ôl yr angen wrth symud ymlaen.

Rhaglen Cartrefi Cynnes Newydd

4. Rydych wedi dweud y bydd y gwasanaeth newydd sy'n seiliedig ar y galw ar waith erbyn y gaeaf. A allech roi amseriadau manylach?

Y prif gerrig milltir rydym yn gweithio iddynt yw:

- | | |
|--|------------------|
| • Cyhoeddi Gwahoddiad i Dendro | Awst; |
| • Dewis y cynigydd a ffefrir | Canol Hydref; |
| • Porth Sicrwydd | w / c 23 Hydref; |
| • Llythyrau Bwriad i Ddyfarnu (cyfnod segur o 2 wythnos) | Canol Tachwedd; |
| • Dyfarnu contract | Diwedd Tachwedd; |
| • Dechrau Gweithredu | Diwedd Tachwedd. |

Bydd cymhlethdod y trawsnewid rhwng y contractau hen a newydd, i raddau helaeth, yn dibynnu ar a oes cyflenwyr newydd ai peidio. Mae fy swyddogion mewn trafodaethau gyda'r cyflenwyr Nyth presennol i ddechrau trefniadau ar gyfer dod â Nyth i ben. Bydd yr estyniad i'r contract Nyth presennol hyd at ddiwedd mis Mawrth 2024 yn sicrhau na fydd bwlch yn y ddarpariaeth rhwng y rhaglenni newydd a'r rhaglenni presennol.

5. Pryd a sut y byddwch yn penderfynu ar y 'trothwy incwm isel'?

Bydd y trothwy incwm isel yn cael ei osod yn unol â 60% o'r Aelwydydd Islaw Incwm Cyfartalog, ystadegau HAAA. Bydd gwerthoedd trothwy, a fydd yn cael eu cyfwerthu ar draws gwahanol fathau o aelwydydd, yn cael eu cyfrifo'n flynyddol a'u cyhoeddi ar wefan y cynllun.

6. A allwch egluro a fydd y Rhaglen newydd yn darparu ar gyfer dull sy'n seiliedig ar ardal o wella effeithlonrwydd ynni cartref a sut y bydd yn gwneud hynny? Os na fydd, pam lai?

Byddwn yn gweithio gyda'r cynigwyr llwyddiannus yn ystod y flwyddyn gyntaf i ddatblygu'r cynllun ymhellach i ddarparu ar gyfer cynlluniau cymunedol ac ar raddfa fach, megis trin teras o dai neu floc o fflatiau lle mai dyna'r ymyrraeth fwyaf priodol.

7. Pryd fyddwch mewn sefyllfa i ddarparu esboniad manylach o Ran 2 o ddull Llywodraeth Cymru o wella effeithlonrwydd ynni cartref?

Rydym wedi cadarnhau, gyda Rhan 2, y byddwn yn datblygu dull integredig ar draws pob deiliadaeth a lefel incwm i yrru datgarboneiddio. Yn ddiweddar rydym wedi lansio ymgynghoriad ar Strategaeth Wres i Gymru sy'n cynnwys ein hasesiad o lawer o'r meysydd blaenoriaeth ar gyfer gweithredu ar ddatgarboneiddio cartrefi a llinell amser ddangosol ar gyfer eu gweithredu. Bydd cynllun gweithredu manylach yn cael ei ddatblygu yn ddiweddarach eleni. Bydd y Grŵp Gweithredu Datgarboneiddio a rhanddeiliaid ar baneli cynghori'r Strategaeth Wres yn cyfrannu at ei ddatblygiad.

Model stoc adeiladau Cymru gyfan

8. A allwch roi diweddariad ar eich trafodaethau â TrustMark, gan gynnwys unrhyw ganlyniad? A allwch egluro pryd a sut y bydd model stoc Cymru gyfan yn cael ei ddefnyddio i nodi aelwydydd?

Rydym yn parhau i drafod gydag TrustMark y llwybr gorau ymlaen o ran sicrhau Model Stoc Cymru Gyfan. Nid ydym wedi cwblhau'r trafodaethau hyn eto.

Mae TrustMark yn gweithio gyda ni ar nifer o brosiectau gan gynnwys fel partneriaid dibynadwy sy'n casglu a rheoli data o amgylch rhaglenni ORP ac IHP, ac fel y corff sy'n gyfrifol am PAS 2035.

Mae'r gwaith ar y model stoc arfaethedig yn cynnwys casglu data newydd sy'n ymwneud â pherfformiad ynni cartrefi Cymru yn y byd go iawn mewn modd systematig a graddadwy. Byddai'r prosiect yn defnyddio'r System Sganio Amgylchedd Adeiledig (BESS). Bydd y data cyflwr hwn yn y byd go iawn, fel y'i hadeiladwyd, yn ffurfio data newydd sy'n uniongyrchol gysylltiedig â gweithredu polisi parhaus. Gellir defnyddio'r mewnwelediadau sy'n deillio o hynny i wneud penderfyniadau sy'n cael eu gyrru gan ddata ynghylch mesurau datgarboneiddio a datblygiadau polisi.

Hwb Perfformiad Carbon Sero Net Tai

9. A allwch egluro pryd y bydd y gwasanaethau a gynigir gan yr Hwb yn cael eu hehangu i gefnogi landlordiaid preifat a pherchnogion tai a'r cyllid ychwanegol sydd ei angen i dalu cost hyn?

Bydd gan yr Hwb feysydd mynediad am ddim a fydd yn helpu i lywio sut y gall landlordiaid preifat a pherchnogion tai ddatgarboneiddio eu cartrefi gan ddefnyddio astudiaethau achos a dysgu o ddatgarboneiddio tai cymdeithasol. Bydd hyn ar gael heb unrhyw gost ychwanegol a bydd yn datblygu ochr yn ochr â'r meysydd a ddatblygwyd ar gyfer y sector tai cymdeithasol (a fydd y tu ôl i ddull o fewngofnodi i aelodau). Bydd y llinell amser ddisgwyliedig ar gyfer y wefan gychwynnol yn dechrau gweld cynnwys o fis Ionawr 2024, gyda'r cyngor a'r arweiniad ar fynediad agored ar gael o fis Gorffennaf 2024. Bydd yr Hwb hefyd yn cysylltu â ffynonellau eraill o wybodaeth ac yn tynnu sylw atynt (megis Gweithredu ar Hinsawdd Cymru) ac mae ganddo gysylltiadau â chanolfannau eraill y DU.

Atebion ariannol ar gyfer y 'gallu talu'

10. A allwch roi diweddariad ar y cynnydd tuag at ddatblygu datrysiadau ariannol ar gyfer y rhai sy'n 'gallu talu', gan gynnwys Cyllid Cysylltiedig ag Eiddo, ers eich ymateb i'n hadroddiad ym mis Ebrill 2023.

Ar hyn o bryd rydym yn gweithio gyda Banc Datblygu Cymru ar brosiect peilot ar gyfer y sector sy'n eiddo i berchenogion sy'n edrych ar fenthyciadau ar gyfer y 'gallu i dalu'. Ar hyn o bryd rydym yn aros am benderfyniad cyllido ynghylch arian FTC i gefnogi'r peilot. Rydym hefyd mewn cysylltiad â'r Sefydliad Cyllid Gwyrdd ac yn trafod gydag opsiynau rhanddeiliaid o ran ariannu datgarboneiddio.

Strategaeth Wres i Gymru

11. A allwch roi diweddariad ar y cynnydd a wnaed tuag at ddatblygu strategaeth wres? A allwch gadarnhau y bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi'r strategaeth cyn diwedd 2023?

Cyhoeddwyd Strategaeth Wres i Gymru | LLYW.CYMRU ar 16 Awst, ochr yn ochr ag adolygiad o'r dystiolaeth sydd ar gael i'r cyhoedd. Bydd yr ymgynghoriad yn cau ar 8 Tachwedd a'n nod yw cyhoeddi'r dadansoddiad o'r ymateb yn gynnar yn 2024. Roedd ei baratodau'n cynnwys amrywiol bartïon â diddordeb, gan gynnwys y rhai sy'n cynrychioli defnyddwyr. Mae'r llenyddiaeth ddiuedd yn cadarnhau mai trydaneiddio gwres yw'r ateb mwyaf priodol ar gyfer y rhan fwyaf o gartrefi, a gellir ei weithredu gyda symiau cymedrol o waith paratoi.

Mae'r strategaeth wres hon yn cefnogi ein dyhead am sector cyhoeddus sero net erbyn 2030 ac mae'n cefnogi datgarboneiddio ein cartrefi, ein diwydiant a'n busnesau yn unol â'n cyfrifoldebau statudol erbyn 2050. Mae'n strategaeth hirdymor, sy'n adlewyrchu maint yr heriau a'r ystod o ymyriadau sydd eu hangen i ysgogi newid.

Bydd ein strategaeth yn amlinellu sut rydym yn ceisio chwalu'r rhwystrau i wresogi carbon isel yng Nghymru, a rôl Llywodraeth y DU drwy, er enghraifft, ryddhau arian ar gyfer inswleiddio ac ailgydbwysu costau trydan.

Wrth inni fyfyrto ar gam cyntaf datblygiad y Strategaeth, mae'r ffocws nawr yn symud i ddatblygu y Cynllun Gweithredu. I lansio'r cam hwn, trefnir gweithdai Cynllunio Gweithredu a sesiynau cynghori thematig.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref IM/JJ/ Strategaeth Wres

Llŷr Gruffydd AS
Cadeirydd, y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

16 Awst 2023

Annwyl Llŷr

Roedd *Cymru Sero Net - Cyllideb Garbon 2* yn cynnwys ymrwymiad i archwilio'r heriau a'r cyfleoedd sy'n ymwneud â gwres carbon isel ac i gyhoeddi strategaeth wres i Gymru yn 2023. Rwy'n cadarnhau ein bod wedi cyhoeddi ein hymgyngoriad **Strategaeth Gwres i Gymru** ar 16 Awst 2023. <https://www.llyw.cymru/strategaeth-wres-i-gymru>

Mae'r argyfwng hinsawdd yn ei gwneud yn ofynnol inni newid ein dull o ymdrin ag ynni – gan leihau ein galw, cynyddu effeithlonrwydd ynni a defnyddio ffynonellau ynni carbon isel. Mae hyn yn wir am ein dull o wresogi ac oeri gofod yn ein cartrefi, busnesau ac adeiladau cyhoeddus, gan gynnwys gwres ar gyfer coginio a gwres a ddefnyddir gan ddiwydiannau. Pwrpas y strategaeth yw datblygu system wres ddatgarbonedig sy'n cyflawni ein huchelgeisiau sero net a'n helpu i gynllunio ar gyfer dyfodol gwell, tecach a gwyrddach i bob un ohonom.

Daw'r ymgynghoriad i ben ar 8 Tachwedd 2023, a'n nod yw cyhoeddi dadansoddiad o'r ymatebion yn gynnar yn 2024. Byddwn yn rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf â chi.

Yn gywir

Julie James AS/MS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 222
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Lee Waters AS/MS
Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd
Deputy Minister for Climate Change



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llyr Gruffydd MS
Cadeirydd
Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

15 Awst 2023

Annwyl Llyr,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 25 Gorffennaf ynghylch seilwaith gwefru cerbydau trydan.

Helpodd buddsoddiad o £26 miliwn gan Lywodraeth Cymru i ddarparu nifer fawr o ddyfeisiau gwefru sydd ar gael i'r cyhoedd yng Nghymru. Ni ariannodd y cyllid hwn bob un o'r 1,639 o bwyntiau gwefru a osodwyd hyd at mis Ebrill 2023.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cywiro ei hymateb i adroddiad y Pwyllgor [mae copi o'r ymateb wedi'i gywiro ynghlwm]. Mae'r cyflwyniad nawr yn darllen "Ers i Lywodraeth Cymru gyhoeddi ein Strategaeth Gwefru Cerbydau Trydan yn 2021, rydym wedi buddsoddi dros £26 miliwn mewn seilwaith gwefru ledled Cymru, a gyfrannodd at gynyddu nifer y dyfeisiau cyhoeddus o 120%. Roedd cyfanswm o 1,465 pwynt gwefru ar 1 Ionawr 2023".

Mae'r datganiad i'r wasg wedi bod yn y parth cyhoeddus ers dros fis. Byddwn yn sicrhau y bydd unrhyw ohebiaeth yn y dyfodol yn disgrifio'n gliriach gyfanswm y pwyntiau gwefru a ariennir gan Lywodraeth Cymru.

Bydd Llywodraeth Cymru yn dadansoddi'r holl bwyntiau gwefru a ariennir gan Lywodraeth Cymru hyd at fis Ebrill 2023 cyn gynted ag y bydd y wybodaeth hon ar gael. Bydd y dadansoddiad yn cynnwys cyfanswm nifer y pwyntiau gwefru, eu lleoliadau priodol, y cyflymderau gwefru y maent yn eu cynnig, ac yn ôl awdurdod lleol.

Yn gywir,

Lee Waters AS/MS
Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd
Deputy Minister for Climate Change

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Lee.Waters@llyw.cymru
Correspondence.Lee.Waters@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Tudalen y pecyn 223

Eitem 7

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon